ELL 01-02(p.7)

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

# Adroddiad Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant

## Cynnwys


**Rhagair**

Aelodau Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant

**Cyflwyniad**

**Pennod 1** Datblygu gofal plant i gwrdd ag anghenion plant, teuluoedd a chymunedau mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol yng Nghymru.

**Pennod 2** Effaith economaidd gofal plant.

**Pennod 3** Recriwtio a Hyfforddi.

**Pennod 4** Cefnogaeth, Isadeiledd a Gwybodaeth.

**Pennod 5** Sicrhau cymaint o adnoddau ag sy'n bosib.

**Atodiadau**

Atodiad 1 Cynnwys y Canllawiau.

Atodiad 2 Safonau Gwybodaeth Sylfaenol.

Atodiad 3 Patrwm ar gyfer Canolfan Blant.

Atodiad 4 Ffynonellau ariannol i'r Patrwm ar gyfer Canolfan Blant.

**Rhestr Termau**

## RHAGAIR – JANE HUTT AC, Y GWEINIDOG DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant. Hoffwn ddiolch i holl aelodau annibynnol y Tasglu, a roddodd eu hamser prin a'u harbenigedd er mwyn datblygu argymhellion y Strategaeth.

Mae'n bosib mai dyma'r tro cyntaf i adroddiad ar y strategaeth gofal plant ddechrau trwy ystyried anghenion ein plant. Rwy'n croesawu'r pwyslais hwn. Mae'n dangos ein bod yn gweithredu mewn dull 'Cymreig' ac yn cefnogi nod polisïau eraill y Cynulliad sy'n ymwneud â phlant. Rydym yn dal i gydnabod, yr un pryd, y gall strategaeth effeithiol ar gyfer gofal plant roi mwy o gyfle i lawer o bobl gael gwaith a hyfforddiant. Mae'n debyg y bydd merched yn elwa o hyn, ond nid yw'r cyfleoedd wedi eu cyfyngu i ferched yn unig. Mae hyn yn golygu bod cyflenwad digonol o ddarpariaethau gofal plant o ansawdd da yn helpu i gyflawni amcanion economaidd y Cynulliad ac yn hybu cyfle cyfartal.

Er mwyn cydgysylltu'r holl waith rydym yn ei wneud ym maes plant mae Cabinet y Cynulliad wedi ffurfio is-bwyllgor, dan fy nghadeiryddiaeth i. Rydym yn ymwybodol o'r neges bendant sydd wedi ei chyfleu gan y Tasglu hwn a chan Banel Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, sef bod arnom angen rhaglen i sicrhau canolfannau plant integredig trwy Gymru, ac rydym yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn.

Mae'r adroddiad hwn a baratowyd gan y Tasglu yn cynnwys llawer o gynghorion sy'n seiliedig ar ffeithiau. Rydym wedi ymateb i'r cynghorion hyn i ryw raddau yn barod. Rydym wedi cyhoeddi cynnydd yn y cronfeydd dangosol ar gyfer gofal plant yn y gyllideb ddrafft. Rydym wedi rhyddhau arian ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth ym maes gofal plant ac wedi cyhoeddi y bydd grantiau sefydlu ar gael ar gyfer gwarchodwyr plant ym mhob cwr o Gymru o Ebrill 2002 ymlaen. Rydym wedi helpu i greu sefydliad newydd i gefnogi clybiau ar ôl ysgol, sef Clybiau Plant Cymru.

Byddwn yn mynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad annibynnol hwn ac yn paratoi ymateb iddo, a byddwn yn cyhoeddi'n cynllun gweithredu yn gynnar yn y flwyddyn 2002.

Mae'r adroddiad hwn yn gam pwysig ymlaen i'r strategaeth gofal plant yng Nghymru. Rydym yn benderfynol o adeiladu ar ymroddiad aelodau'r tasglu, a gwneud gwahaniaeth amlwg er mwyn sicrhau bod gofal plant yng Nghymru o fewn cyrraedd rhwydd, yn rhesymol ei bris ac o ansawdd da.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,**
**Plant a Chyfiawnder Ieuenctid**

**Aelodau'r Tasglu**

Nia Morgan
Uwch Reolwr Datblygu
Y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Pat Davies
Pennaeth yr Uned Plentyndod Cynnar
Plant yng Nghymru

Derek Gregory
Llywydd
Cyngres yr Undebau Llafur, Cymru

Wendy Hawkins
Cyfarwyddwr – PPA Cymru

John Valentine-Williams
ACCAC

Phyllis Matthews
Cydlynydd Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Wrecsam
Partneriaeth Gofal Plant Wrecsam

Penny Mitchell
Awdurdod Datblygu Cymru

Susan Lewis
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
ESTYN

Ruth Marks
Prif Weithredwr
Chwarae Teg

Sheelagh Keyse – Cyfarwyddwr
Swyddfa Gwasanaethau Cyflogaeth Cymru

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr – Chwarae Cymru

Tom Davies
Aelod o'r Bwrdd ar ran Cymru
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Jeanie Gray
Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Andy Senior
Cydlynydd Partherniaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Deris Williams
Cyfarwyddwr Rhanbarth,
Menter Cwm Gwendraeth

Mary Slater
Rheolwr Gofal Plant ar ôl Ysgol
Chwarae Teg

Siân Davies
Rheolwr Datblygu Rhanbarthol
Cymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant

Karen Walker
Cymdeithas Genedlaethol y Meithrinfeydd Dydd

Nigel Levi
Uwch Reolwr Datblygiad Cyflenwyr
ELWa

Sue Owen
Cyfarwyddwr
Corff Hyfforddi Cenedlaethol y Blynyddoedd Cynnar

Stephen Studd
Uned Gwaith Chwarae SPRITO

Hywel Jones
Mudiad Ysgolion Meithrin

Dewi Jones
Cyfarwyddwr Grwp
Gwasanaethau Addysg a Phlant

Maggie Walker
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Y Rhwydwaith Clybiau Plant

Paul Bonel
Uned Gwaith Chwarae SPRITO

Gillian Street
Y Rhwydwaith Clybiau Plant

# CYFLWYNIAD

1. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo'i hun i roi dechrau da i'n plant ieuengaf, gan gynnwys y plant hynny sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

2. Ers cyhoeddi'r "Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yng Nghymru" ym Mehefin 1998, mae'r Cynulliad a'i bartneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu strategaeth gofal plant i gwrdd ag anghenion plant, rhieni a darparwyr gofal plant yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth y DU hefyd ran i'w chwarae yn y gwaith o gefnogi gofal plant, er enghraifft trwy'r Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio. Ond y Cynulliad sy'n bennaf gyfrifol yng Nghymru am hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gofal plant sydd o fewn cyrraedd rhwydd, sy'n rhesymol ei bris ac sydd o ansawdd da ym mhob ardal. Mae'r Strategaeth wedi ei datblygu'n llwyddiannus hyd yn hyn ym mhob awdurdod lleol gan Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

3. Gan fod peth amser wedi mynd heibio ers pan gyhoeddwyd y Strategaeth am y tro cyntaf, sefydlodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Tasglu Gofal Plant yn Chwefror 2001 er mwyn dangos i ba gyfeiriad y dylid anelu yn y dyfodol ar sail y profiad a gafwyd hyd yn hyn. Roedd yr aelodau'n cynnwys y prif rai sy'n ymwneud â gofal plant yng Nghymru, a oedd hefyd yn gofyn am farn pobl yn lleol.

4. Mae'r Tasglu wedi gweithio ochr yn ochr â Phanel Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar y Cynulliad, sy'n gweithredu ymrwymiad y Cynulliad i sicrhau bod lle i bob plentyn tair oed gael addysg gynnar am ddim am hanner diwrnod yn ystod y tymor.

5. Roedd gan y Tasglu bump is-grwp, ac mae pob un ohonynt wedi cyfrannu pennod i'r adroddiad hwn. Mae'r penodau hyn yn amlinellu'r her y mae'r Strategaeth Gofal Plant yn ei hwynebu ac yn gwneud argymhellion, ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.

6. Mae'r ddwy bennod gyntaf yn amlinellu prif amcanion polisi'r strategaeth gofal plant. Mae'r bennod gyntaf yn trafod sut y gall y strategaeth gofal plant roi anghenion y plentyn yn gyntaf, ac yn cynnig yn fwyaf arbennig y dylid gwneud hyn trwy gael canolfannau sy'n integreiddio datblygiad y blynyddoedd cynnar â gofal plant a chefnogaeth arall. Mae'r Cynulliad wedi cynnig y dylid dod â'r arian Gofal Plant ac arian Cychwyn Cadarn a Chronfa'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc at ei gilydd o Ebrill 2003 ymlaen, ac mae hyn yn cydweddu'n dda â natur unol canolfannau o'r fath.

7. Ond nid yw'r flaenoriaeth a roddir i anghenion y plentyn yn golygu bod agweddau eraill ar y strategaeth gofal plant wedi eu hepgor o'r adroddiad hwn. Mae Pennod 2 yn edrych ar fanteision economaidd pwysig darpariaeth gofal plant. Gall gofal plant gynnig mwy o gyfle i rieni fod yn economaidd weithredol, ac mae gofalu ei hun yn ddiwydiant sy'n cynyddu o ran ei bwysigrwydd.

8. Mae gweddill yr adroddiad yn edrych ar yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gofal plant a sut y gellir eu datblygu.  Yr adnodd pwysicaf ym maes gofal plant yw ei bobl, ac mae Pennod 3 o ganlyniad yn edrych ar y gwaith o recriwtio a hyfforddi'r gweithlu.  Mae'n cynnig cynllun gweithredu er mwyn ceisio mynd i'r afael â statws isel, cyfraddau cyflog isel ac anawsterau cadw staff yn sgil hynny yn y sector.

9. Mae Pennod 4 yn edrych ar yr isadeiledd sy'n darparu'r strategaeth gofal plant, ac ar Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn fwyaf arbennig.  Mae'r rhain yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gwaith o sicrhau bod y sectorau statudol a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn troi gobeithion y Cynulliad yn ddarpariaeth o ansawdd da yn ein cymunedau.  Mae'r bennod yn trafod y gefnogaeth y mae ar y partneriaethau ei hangen, a'r gwasanaethau gwybodaeth y dylent eu darparu i'r cyhoedd.

10. Yn olaf, mae Pennod 5 yn ceisio gwneud argymhellion a all sicrhau bod mwy o arian ar gael ar gyfer gofal plant.  Mae sawl prif ffrwd – arian gan  y Cynulliad i bartneriaethau, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yw'r rhai pwysicaf.

11. Bydd y Cynulliad yn cynnig cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad hwn, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Chwefror 2002.

# PENNOD 1

## DATBLYGU GOFAL PLANT I GWRDD AG ANGHENION PLANT, TEULUOEDD A CHYMUNEDAU MEWN ARDALOEDD LLE CEIR AMDDIFADEDD CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU.

Hwylusydd y Grwp: Pat Davies, Plant yng Nghymru

**Pwrpas y grwp**

- Cynnig diffiniad manylach o ganolfannau plant cymunedol a'u hamcanion, penderfynu sut y bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu, a chanfod ffordd o ddatblygu'r cynigion.

**Cyflwyniad**

1. Roedd y grwp yn falch o gael cyfle i ganolbwyntio ar anghenion a hawliau plant a theuluoedd yng nghyd-destun agenda ehangach datblygu economaidd, cynhwysedd cymdeithasol a'r cylch sydd mor nodweddiadol o gymaint o deuluoedd yng Nghymru lle mae dyheadau a hunan-dyb yn isel. Mae'r Strategaeth Gofal Plant sy'n anelu at roi dechrau da mewn bywyd i blant, a galluogi rhieni i weithio a hyfforddi, yn adeiladu ar un o'r lefelau arian cyhoeddus isaf ar gyfer gofal plant yn Ewrop. Mae hyn yn golygu bod yr her a'r angen am wasanaethau o ansawdd da yn aruthrol, yn enwedig pan fo'r holl adroddiadau diweddar yn dod i'r casgliad bod hygyrchedd, costau, cynaladwyedd a datblygu potensial yn dal i wneud y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal plant yn anodd, ac mae'r anawsterau hyn yn waeth mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol (Childcare in Wales, Pwyllgor Materion Cymreig 1999, Social Exclusion in Wales, Pwyllgor Materion Cymreig 2000, Looking to the Future for Children and Families, Y Comisiwn Gofal Plant 2001). Mae'n hanfodol, felly, bod dull gweithredu strategol yn cael ei ddatblygu, gyda chydweithrediad a chydlyniad rhwng adrannau'r Cynulliad a sectorau a sefydliadau yng Nghymru.

**Y sefyllfa bresennol**

2. Mae'r DU wedi bod ar waelod y gynghrair Ewropeaidd o safbwynt arian cyhoeddus ar gyfer gofal plant, ac yma yng Nghymru prin iawn yw'r datblygiadau sydd wedi eu gwneud yn y sector preifat, a phrin hefyd yw'r gefnogaeth i ofal plant gan gyflogwyr. Mae'r pwyslais traddodiadol ar swyddogaethau a chyfrifoldebau dynion a merched hefyd wedi cyfyngu ar dwf gofal dydd llawn-amser ac mae'r costau wedi bod yn broblem, ac eithrio i barau proffesiynol. Mae hyn wedi arwain at lawer iawn o ddibyniaeth ar y sector gwirfoddol ac, yng Nghymru'n enwedig, at ddibyniaeth ar aelodau o'r teulu, perthnasau a/neu gymdogion – trefniadau anffurfiol. Mae amrywiaeth o wasanaethau wedi datblygu ond heb lawer o ddewis gwirioneddol i rieni – gwarchodwyr plant, grwpiau chwarae, meithrinfeydd, canolfannau

teuluoedd, meithrinfeydd dydd a chlybiau ar ôl ysgol. Yn aml iawn, mae rhieni nad ydynt yn gallu dibynnu ar gefnogaeth teulu, wedi defnyddio gwarchodwyr plant i ddarparu gofal hyblyg a hawdd cael gafael arno, neu mewn sawl achos gyfuniad o warchodwyr plant / grwpiau chwarae / meithrinfa / ysgol. Mae llawer o blant cyn oed ysgol yn cael eu symud o bared i bost yn ystod eu horiau effro, rhywbeth fyddai'n cael ei ystyried yn gwbl annerbyniol yn ystod y cyfnod cynradd neu uwchradd.

**Beth sydd ei angen?**

3. Y farn gyffredinol yw na fydd y sefyllfa bresennol yn newid llawer hyd nes y bydd cymunedau lleol trwy Gymru'n datblygu gwasanaethau priodol ar gyfer plant, gan gynnwys gwasanaethau sy'n gallu cefnogi rhieni sydd mewn gwaith neu hyfforddiant. Mae'r syniad o symud oddi wrth y rhaglen gyfyng lles i waith at ymrwymiad i gwrdd â hawliau ac anghenion plant, teuluoedd a chymunedau'n cael ei weld fel y cam cyntaf. Bydd strategaeth sy'n rhoi hawl y plentyn i gael profiadau sy'n ei gyfoethogi fel yr elfen ganolog hefyd yn cefnogi canlyniadau'r strategaeth bresennol yng nghyswllt addysg, adfywio'r economi, datblygu cymunedau a chyflogaeth. Bydd hefyd yn dileu'r anghyfartaledd presennol lle nad yw pawb yn gallu cael gofal plant, a lle mae'r system yn seiliedig ar anghenion *rhieni* (yn hytrach nag anghenion plant) a "loteri cod post".

4. Gall darparu gofal plant o ansawdd da, os yw'n cael ei gyfuno ag addysg gyn-ysgol a chefnogaeth rhieni fod o fudd i bob plentyn a theulu. Mae'r negeseuon cryf sy'n dod o waith ymchwil, o brofiadau rhyngwladol (Starting Strong, Y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd 2001) ac o ymarfer sy'n datblygu yn Lloegr yn pwysleisio bod angen continwwm o ddarpariaeth integredig ar gyfer plant.

**Cynnig**

5. Dylid datblygu strategaeth dymor hir sy'n seiliedig ar hawl pob plentyn i ofal plant diogel sy'n cynnig boddhad. Rhaid canfod ffordd o ddod â Phwyllgorau'r Cynulliad at ei gilydd, yn enwedig y rhai hynny sy'n adolygu gofal plant, addysg a dysgu gydol oes.

6. Dylid datblygu rhaglen sy'n cynnig rhwydweithiau gwasanaethau plant integredig (patrwm canolfannau plant "craidd a chlwstwr"). Dylai pob awdurdod lleol ystyried sefydlu canolfannau amlbwrpas, amlasiantaethol, sy'n cysylltu rhwydwaith o ddarparwyr (mam a'i phlentyn, grwpiau chwarae, gwarchodwyr plant, clybiau ar ôl ysgol, parciau antur a gweithgareddau hamdden eraill ar gyfer pobl ifanc) er mwyn cynnig sgiliau a chyfoethogi bywydau plant, teuluoedd a chymunedau. Dylai canolfannau plant adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol, a chryfderau grwpiau cymunedol a'u gwella. Byddai'r ganolfan yn gweithredu fel adnodd ac yn cynnig enghreifftiau o'r arferion gorau ar gyfer pob darpariaeth gofal plant yn yr ardal honno. Gellid ffurfio cysylltiadau â gwasanaethau fel grwpiau chwarae, gwarchodwyr plant

a gofalwyr anffurfiol a'u cefnogi mewn sefyllfaoedd maes a thrwy raglenni hyfforddi amlddisgyblaethol.

7. Rhaid rhoi'r hawl i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ddatblygu'r patrwm canolfannau plant "craidd a chlwstwr". Mae angen arian er mwyn cryfhau'r isadeiledd ar gyfer Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'u galluogi i deilwrio gwasanaethau mewn ymateb i angen lleol a sefydlu amcanion tymor hir.

8. Rhaid cydnabod cyfraniad sefydliadau gofal plant gwirfoddol cenedlaethol a'u cefnogi trwy drefniadau ariannu cytunedig. Mae PPA (Cymru), Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM), Cymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant a Chlybiau Plant Cymru'n cefnogi gwasanaethau sylfaenol ac yn chwarae rhan gref mewn Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac mewn Partneriaethau Cychwyn Cadarn.

**Gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu patrymau canolfannau plant "craidd a chlwstwr" integredig.**

9. Mae'r cysyniad o ganolfannau plant yn darparu gofal dydd integredig, addysg gynnar, cefnogaeth i deuluoedd ac adnodd i'r gymuned ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth amlddisgyblaethol wedi datblygu o batrymau llwyddiannus yn Ewrop a Lloegr (fel Canolfan Pen Green, Corby a'r Ace Centre yn Chipping Norton). Mae canolfannau plant wedi cael eu hargymell gan grwpiau fel Daycare Trust 2000 a'r Comisiwn Gofal Plant 2001 ac maent hefyd yn cael eu hystyried gan Banel Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a sefydlwyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Yn Lloegr, y patrwm tebycaf i'r syniad o ganolfan blant yw'r Rhaglen Canolfannau Rhagoriaeth Gynnar (ac mae'n dystiolaeth gref o fanteision sylweddol a chosteffeithiolrwydd y strategaeth bolisi hon). Sefydlwyd y rhaglen yn 1997 er mwyn datblygu rhwydwaith o ganolfannau sy'n dangos arweiniad ac ymarfer da mewn addysg, gofal plant a chefnogaeth i deuluoedd yn ogystal â darparu ffocws ar gyfer hyfforddi a dosbarthu. Un o brif nodweddion y canolfannau yw eu bod wedi datblygu i gwrdd ag anghenion eu hardaloedd; maent yn darparu elfen ychwanegol ac maent yn gatalyddion ar gyfer datblygu gwasanaeth. Mae'r enw, "Canolfannau Rhagoriaeth Gynnar" wedi ei wrthod gan grwpiau yng Nghymru, ond mae'r amcanion y mae'r rhaglen beilot yn seiliedig arnynt yn cael eu hystyried yn rhai dilys ac yn rhai y gellid eu trosglwyddo i Gymru.

**Amcanion**

- Darparu addysg gynnar a gofal dydd integredig o ansawdd da i blant sydd angen darpariaeth diwrnod estynedig a blwyddyn estynedig yn y cartref neu mewn canolfan, a hynny mewn gwahanol safleoedd cysylltiedig o fewn cymuned/ardal ddaearyddol;

- Cael rhieni a gofalwyr i ymwneud ag addysg a gofal plant trwy gynlluniau ar gyfer dysgu fel teulu, datblygu sgiliau magu plant, codi disgwyliadau rhieni ac mewn ffyrdd eraill;

- Gwasanaethau cefnogi ar gyfer rhieni a gofalwyr plant, gan gynnwys cefnogaeth yn y cartref, cyfleusterau galw heibio, a gwasanaethau cyngor a gwybodaeth;

- Canfod ac ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol yn achos plant mewn angen a phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig, gyda'r bwriad o wella rhagolygon y plant a, lle bynnag y bo hynny'n briodol, sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn darpariaeth prif ffrwd;

- Cyfle i rieni plant ifanc ac oedolion eraill, gan gynnwys y rhai hynny sy'n awyddus i gael sgiliau a chymwysterau ar gyfer gwaith, gael mynediad i addysg a hyfforddiant ar gyfer oedolion;

- Camau cadarnhaol er mwyn hybu cynhwysedd cymdeithasol ar gyfer teuluoedd sydd wedi eu hynysu a theuluoedd difreintiedig, cyfle cyfartal ac agweddau ac ymarfer di-hiliol ym mhob agwedd ar waith y ganolfan;

- Helpu i godi safonau darpariaethau blynyddoedd cynnar trwy ddarparu hyfforddiant o ansawdd da a chyfleoedd i ddatblygu ar gyfer staff y ganolfan, eraill sy'n darparu ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn yr ardal, gan gynnwys darparwyr gwirfoddol a phreifat, gwarchodwyr plant a gofalwyr eraill; a thrwy gyfrannu at strategaeth hyfforddi a datblygu Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;

- Sicrhau cydweithio amlasiantaethol effeithiol rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, gwasanaethau cymunedol, asiantaethau eraill a chyflogwyr wrth ddarparu gwasanaethau;

- Cydweithio gydag ysgolion a darparwyr gofal cyn ac ar ôl ysgol er mwyn hyrwyddo dilyniant yn y ddarpariaeth addysgol a'r gefnogaeth i astudio;

- Arolygu ac arfarnu effeithiau ac effeithiolrwydd gwaith y ganolfan, a helpu i rannu ymarfer da.

10. Mae canolfannau plant yn darparu cyfres o swyddogaethau a gwasanaethau ac nid ydynt yn dilyn y 'patrwm plac pres ar ddrws'. Gallai gweithgareddau craidd gynnwys gofal meithrin diwrnod llawn; addysg gynnar ran-amser; gofal ar ôl ysgol; rhwydwaith gwarchod plant wedi ei gymeradwyo; cefnogaeth/gwybodaeth i deuluoedd; cyfleusterau galw heibio a chyfleoedd hyfforddi a rhannu gwybodaeth ar gyfer gweithwyr gofal plant. Ar y llaw arall, gallai canolfan fod yn lleoliad ar gyfer rhwydwaith adnoddau/hyfforddiant ac yn ganolbwynt amlasiantaethol i ddatblygu'r ymarfer gorau ar gyfer pob darparwr gofal plant yn yr ardal honno. (Gweler Atodiad 3)

### Rheolaeth

11. Byddai'r modd y rheolir canolfannau plant integredig yn amrywio gan ddibynnu ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Byddai gwahanol

asiantaethau o’r sectorau statudol, gwirfoddol a chymunedol yn gyfrifol am reoli, cydlynu, cyfathrebu a darparu gwasanaethau.

**Lleoliad**

12. Gallai canolfannau fod wedi eu lleoli mewn ysgolion meithrin / cynradd / uwchradd; colegau AB/AU; canolfannau teuluoedd / canolfannau cymunedol neu stoc dai segur. Mewn rhai cymunedau, byddai’n ddelfrydol lleoli canolfannau plant ar yr un safle ag ysgol gynradd gysylltiedig. (Nid oes rhaglen Ganolfannau Rhagoriaeth Gynnar gyfatebol yng Nghymru a phrin iawn yw’r symud tuag at ddarpariaeth integredig, ond mae nifer o enghreifftiau o brifathrawon sy’n cefnogi sesiynau gofal / grwpiau chwarae ar safle, ar ôl oriau ysgol, cyfleusterau galw heibio a grwpiau rhieni.) Gallai rhai canolfannau fod wedi eu lleoli ar un safle, ond bydd angen i lawer o rai eraill fod yn seiliedig ar rwydwaith neu fod wedi eu lleoli ar nifer o safleoedd ac yn gweithio trwy drefniadau cynghreiriol rhwng y darparwyr gwasanaeth. (Diagram 1) Bydd y patrwm “craidd a chlwstwr” yn berthnasol iawn mewn ardaloedd gwledig a chymunedau yn y cymoedd lle mae teuluoedd yn byw mewn pentrefi bychain neu ar stadau ar wahân lle nad yw’n hawdd cael cludiant.

13. Mae Sally Holtermann, yn ei phapur 'Children's Centres: exploring the costs and delivery of a national scheme' yn dweud "There is no single blue print to apply everywhere. The exact working out of the idea will depend on local circumstances - the social make-up of the community, the local geography of urban/rural situations, existing services, identified priorities and the availability of suitable buildings for conversion or refurbishment. The common element would be a commitment to working in a co-ordinated and coherent fashion for the benefit of children and families and communities served." (Daycare Trust, 2001)

**Proses**

**Lefel Strategol**

14. Dylai is-bwyllgor y Cabinet ystyried ar fyrder sut i ddatblygu dull integredig o ddarparu gofal plant ac addysg i blant 0-5 oed. Mae’r cyswllt hwn yn cael ei gymeradwyo gan Banel Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sydd hefyd yn ystyried datblygu canolfannau blynyddoedd cynnar integredig fel rhan o’r cynllun i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer plant tair oed.

15. Mae cysylltiadau rhwng cynlluniau (gan gynnwys Cychwyn Cadarn, Chwarae Plant, Plant a Phobl Ifanc) yn cael eu hystyried ar hyn o bryd mewn ymateb i ymgynghoriad y Cynulliad ar y Fframwaith ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Rhaid datblygu trefniadau eraill er mwyn ffurfio cysylltiadau gydag ag Addysg Gynnar a Rhoi Cymunedau’n Gyntaf.

**Lefel Weithredol**

16. Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sydd yn y sefyllfa orau i ymgynghori â chymunedau lleol er mwyn nodi angen a safleoedd / adeiladau posib ar gyfer datblygu darpariaeth integredig, o bosib fel rhan o'r broses Gynllunio Cymunedol ar gyfer "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf". Mae llawer o Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wedi datblygu data soffistigedig ynghylch lefelau'r ddarpariaeth sydd ar gael a lefel yr angen sydd heb ei diwallu ac maent mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y gwasanaethau sy'n bodoli'n barod a chryfhau rhwydweithiau. Mae angen arian i gryfhau isadeiledd Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant er mwyn eu galluogi i ddatblygu a chefnogi darpariaeth newydd a darpariaeth sy'n bodoli'n barod. Rhaid sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ynghyd â phenderfyniadau ynghylch eu rheolaeth yn glir.

17. Mae mwy o arian yn hanfodol er mwyn cefnogi'r sefydliadau gofal plant gwirfoddol cenedlaethol a'u galluogi i ddatblygu gwasanaethau sylfaenol a dal i chwarae rhan gref mewn Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Phartneriaethau Cychwyn Cadarn.

**Amserlen**

18. Bydd llawer yn dibynnu ar y gwasanaethau sy'n bodoli'n barod mewn cymuned, sef y ddarpariaeth graidd, a pha un a oes adeiladau addas ar gael, e.e. meithrinfa / ysgol gynradd / grwp chwarae neu le mewn coleg AB/AU. Bydd angen datblygu cyfalaf a/neu waith adnewyddu hefyd.

19. Byddai angen i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant / Pwyllgorau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf Plant archwilio'r gwasanaethau sy'n bodoli'n barod a'r angen. Byddai angen gwneud cyfres o benderfyniadau cyn sefydlu rhaglen o ganolfannau neu wasanaethau cysylltiedig. Gallai hyn fod er mwyn:

- Cytuno ar nodau ac amcanion cyffredin
- Canfod a oes arian ar gael
- Ymgynghori â chymunedau lleol
- Canfod adeiladau/cynghreiriau posib
- Sefydlu strwythur rheoli
- Nodi gwasanaethau craidd
- Cytuno ar drefniadau partneriaeth gyda gwasanaethau/sefydliadau plant
- Sefydlu rhaglenni hyfforddi ar y cyd
- Penodi a hyfforddi staff

## Ariannu, Hyfywedd Ariannol, Cynaladwyedd

### Y Sefyllfa Bresennol

20. Mae'r arian sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer lleoliadau gofal plant a gwasanaethau'r sector gwirfoddol yn gwbl annigonol ac yn deillio o sawl ffynhonnell, ac nid yw'n unffurf ar draws ardaloedd partneriaethau lleol ac oddi mewn i gymunedau lleol yng Nghymru. Mae cynaladwyedd a hyfywedd yn dal i danseilio datblygiad llefydd gofal plant yng Nghymru. Mae'r papur sydd ynghlwm yn dangos cymhlethdod y ffynonellau ariannol presennol a darpar ffynonellau ariannol. (Atodiad 4)

    Mae llawer o rieni yn methu â fforddio ffioedd clybiau ar ôl ysgol a sesiynau grwpiau chwarae, heb sôn am ffioedd meithrinfeydd dydd neu warchodwyr plant. Mae hyd yn oed y teuluoedd sy'n gymwys i dderbyn Credyd Treth ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio yn dal i orfod dod o hyd i 30% o gost gofal dydd. Hyd yn oed wedyn, prin bod y ffioedd yn talu costau'r darparwyr o ran cyflogau, rhent, adnoddau ac yn y blaen. Argymhellir bod adolygiad "gwreiddiau a changhennau" o'r cyllid yn cael ei wneud, gan edrych ar y posibilrwydd o ariannu darpariaeth i ddileu neu ostwng ffioedd i lefelau lle mae'r gwasanaethau ar gael i bob plentyn, beth bynnag yw incwm y rhieni. Cynigir y byddai buddsoddiad o'r fath yn talu ar ei ganfed dros gyfnod o amser – o ran gwelliant yn natblygiad plant, cynnydd yn y nifer sy'n cael eu recriwtio, cadw staff a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa, datblygu potensial cymunedau ac adfywio economaidd a lleihau anghyfartaledd mewn iechyd a lles – gan osod Cymru ar flaen y gad o safbwynt darpariaeth gofal cymdeithasol yn Ewrop.

    Gallai'r symudiad tuag at ddarparu lleoedd i blant tair oed mewn lleoliadau addysgol arwain at danseilio'r ddarpariaeth bresennol a lleihau'r dewis ynghyd â nifer y cyfleoedd mewn rhai cymunedau trwy golli grwp chwarae, darpariaeth mam a'i phlentyn a gwarchodwyr plant. Mae angen rhoi sylw i'r materion hyn ar lefel genedlaethol a lleol.

21. Mae cymhlethdod yr ariannu'n clymu amser staff ac aelodau Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae sicrhau incwm o wahanol ffynonellau'n galw am sgiliau ariannol sylweddol. Ar hyn o bryd mae rhai Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Phartneriaethau Cychwyn Cadarn yn ceisio darparu llefydd â chymhorthdal ar gyfer plant mewn grwpiau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol mewn ardaloedd difreintiedig, ond crafu'r wyneb yn unig y mae hyn.

### Ariannu – Datblygu Dull Gweithredu Strategol

22. Rhaid i'r Cynulliad roi adnoddau ar gyfer y Strategaeth Gofal Plant yng Nghymru mewn modd sy'n fwy digonol.

23. Mae'r cynigion sy'n cael eu gwneud yn y papur ar Sicrhau Cymaint o Adnoddau ag sy'n Bosib yn awgrymu cyfres o ffyrdd ymlaen er mwyn cael mwy o arian.

24. Rhaid i’r Cynulliad ystyried sut i integreiddio a datblygu’r strategaethau presennol a dod â’r ffrydiau ariannu cysylltiedig at ei gilydd, gan gynnwys y symiau bach sydd ar gael ar gyfer darpariaeth gofal plant yng Nghymru, a’r arian sydd ar gael ar gyfer Cychwyn Cadarn, Plant a Phobl Ifanc, Chwarae ac yn y blaen. Dylai hyn fod yn bosib dan y Gronfa i Gynorthwyo Plant a Phobl Ifanc a fyddai’n darparu dros £35 miliwn er mwyn datblygu’r cynlluniau hyn. Yr her fwyaf fyddai crynhoi’r £11 miliwn a allai fod ar gael i’w ddyrannu er mwyn datblygu canolfannau integredig i blant tair oed, mater sy’n cael ei ystyried gan Banel Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar.

25. Bydd yr elfen ariannu cyfalaf o raglen 3ydd rownd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn darparu hyd at £10 miliwn i’w fuddsoddi mewn adeiladau ac ailwampio safleoedd addas.

26. Nid oes sicrwydd faint o arian fydd ar gael i gymunedau difreintiedig dan y Rhaglen Rhoi Cymunedau’n Gyntaf ac a ellir perswadio aelodau’r Bartneriaeth Rhoi Cymunedau’n Gyntaf ynghylch pwysigrwydd strategol canolfannau plant / gofal plant wrth adfywio teuluoedd a chymunedau.

**Argymhellion**

- Dylai Adrannau yn y Cynulliad sefydlu gwell trefniadau er mwyn datblygu gwasanaethau addysg a gofal integredig ar gyfer plant, ochr yn ochr â chefnogaeth i deuluoedd, a hyfforddiant i oedolion wrth frwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol, tlodi plant, tangyflawni addysgol, dibyniaeth ar les a diweithdra.

- Dylid datblygu canolfannau plant “Craidd a Chlwstwr” mewn cymunedau lleol gan adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol, a chynnwys grwpiau chwarae, meithrinfeydd, clybiau ar ôl ysgol a rhwydweithiau gwarchodwyr plant.

- Mae angen arian er mwyn cryfhau’r isadeiledd ar gyfer Partneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a’u galluogi i ehangu eu swyddogaethau a’u lefelau cefnogi.

- Mae angen arian er mwyn cefnogi’r sefydliadau gofal plant gwirfoddol cenedlaethol a’u galluogi i gefnogi addysg gyn-ysgol a chlybiau ar ôl ysgol a datblygu rhwydweithiau gwarchodwyr plant.

- Dros gyfnod o amser, yn dilyn cynlluniau peilot i nodi manteision ac arbedion o ffynonellau ariannu eraill yng nghyswllt ymyrraeth a chefnogaeth, dylid cyfeirio arian er mwyn datblygu darpariaeth unffurf am gost isel neu heb unrhyw gost, gan ganiatáu i blant ddefnyddio gweithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden a gweithgareddau cyfoethogi, fel un o’r hawliau dynol sylfaenol.

# PENNOD 2

## EFFAITH ECONOMAIDD GOFAL PLANT

Hwylusydd y Grwp: Penny Mitchell, Awdurdod Datblygu Cymru

### Pwrpas y grwp

- Edrych sut y gall gofal plant gyfrannu tuag at ddatblygu economaidd a sut y gall cymunedau, pobl a busnesau yng Nghymru elwa o'r cydgysylltu.

### Cyflwyniad

1. Fel y dengys dogfennau niferus, mae economi Cymru, sy'n cael ei mesur fel arfer trwy edrych ar Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen, yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Mae nifer o resymau dros y gagendor hwn mewn ffyniant wrth gwrs, ond dau o'r prif resymau yw bod cyfran y bobl sydd mewn cyflogaeth yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU, a bod strwythur galwedigaethol Cymru wedi ei grynhoi mewn sectorau, sydd o gymharu â'r DU, yn sectorau lle mae'r twf yn weddol araf.

2. Mae gan ofal plant y potensial i fod yn un o nifer o wahanol gyfryngau a fydd yn ein galluogi i roi sylw i'r materion hyn. Er bod llawer o'r data sydd ar gael yn ymwneud â menywod, dylid cydnabod bod tueddiadau cymdeithasol yn dangos bod pwnc gofal dibynnol yn gallu effeithio ar ddynion hefyd. Ceir tystiolaeth mewn arolygon y byddai dros 40% o'r menywod economaidd anweithredol sydd yn y boblogaeth yng Nghymru yn hoffi gweithio pe bai amgylchiadau'n caniatáu, a dengys tystiolaeth o brosiect Sgiliau Dyfodol Cymru bod 26% o'r menywod a gymerodd ran yn yr arolwg yn nodi mai'r prif beth oedd yn eu rhwystro rhag mynd i weithio oedd gofal plant. Os ychwanegwch at hyn newidiadau yn y farchnad lafur sy'n debygol o awgrymu cynnydd graddol yn y galw am weithwyr benywaidd, mae'n rhaid i chi ddod i'r casgliad y gallai Gofal Plant effeithio ar nifer y bobl mewn gwaith ac o ganlyniad ar lefel y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen.

3. Roedd adroddiad a gomisiynwyd yn 1999 gan yr Awdurdod Datblygu (*Caring for the Economy*, Miller Research) yn awgrymu y gallai codi cyfraddau gweithgaredd menywod yng Nghymru i gyfartaledd y DU gyfrannu dros £430 miliwn mewn enillion uniongyrchol trwy Gymru, gan ychwanegu cymaint â dau bwynt canran at y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen. Roedd yr adroddiad hefyd yn awgrymu y gellid dod â'r 116,000 o fenywod yr amcangyfrifir eu bod yn economaidd anweithredol ar hyn o bryd, ond a fyddai'n hoffi gweithio, i mewn i'r farchnad lafur, y gallai Cynnyrch Mewnwladol Crynswth godi i 89.5% o lefelau'r DU.

**4.** Yn ôl ymchwil sylfaenol a wnaethpwyd ar ran y Cynllun Gweithredu Mentergarwch, ac a oedd yn edrych ar entrepreneuriaid a oedd wedi eu tangynrychioli, mae dwy elfen i faterion gofal plant – cost, a pha un a oes gofal plant ar gael ai peidio. Nodwyd bod merched fel arfer yn ymgymryd â'r

cyfrifoldeb am ofal plant ar eu pennau eu hunain, ond y gall y rôl ofalu hon ddod yn ôl i fenywod yn ddiweddarach hefyd, pan fydd ar berthnasau oedrannus angen gofal. Nid yw cost uchel, diffyg amrediad ac anhyblygrwydd y ddarpariaeth yn annog merched i sefydlu na datblygu eu busnesau eu hunain.

**Y Sefyllfa Bresennol**

5. Ar wahân i'r Cynulliad, nid oes sefydliad unigol sy'n gyfrifol am effaith economaidd gofal plant yng Nghymru. Er hyn, mae'r Awdurdod Datblygu, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu economaidd, wedi cymryd camau er mwyn sicrhau bod ei bolisïau a'i raglenni wedi eu hanelu tuag at gefnogi gofal plant lle bo'n briodol.

- Wrth ystyried darparu safleoedd datblygedig, gellid edrych ar gyfleusterau gofal plant, a lle bo'n briodol eu cynnwys yn y cynllun. Er hyn, nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu y dylai hyn ddod yn bolisi prif ffrwd.

- Wrth benderfynu ar leoliad datblygiad newydd ar safleoedd strategol, un o'r prif ffactorau y mae angen eu hystyried yw mynediad rhwydd, gan gynnwys mynediad i gludiant cyhoeddus, a all fod yn bwysig i ferched sy'n dychwelyd i weithio. Mae dibynadwyedd y gwasanaethau hyn yn amlwg yn bwysig i ferched sydd â phlant ifanc a allai fod mewn gofal dydd ac yn y blaen.

- O safbwynt cyflogaeth lawn-amser neu ran-amser, mae agwedd cyflogwyr yn holl bwysig er mwyn newid y cyndynrwydd i gyflwyno arferion gweithio hyblyg sy'n darparu ar gyfer gofalwyr. Efallai fod modd i gyflogwyr mawr gynnig darpariaeth ymarferol, gofal â chymhorthdal neu ofal am bris is, ond mae hyn wedi ei gyfyngu yn bennaf i'r sector cyhoeddus ac mae Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain, er enghraifft, o'r farn nad yw darpariaeth gofal plant ar safle yn atyniadol i'r sector preifat. Yn fwyaf arbennig mae'n bwysig iawn cydnabod y costau sylweddol y gallai hyn ei olygu i fentrau bach a chanolig eu maint a'r ffaith nad yw'n debygol, hyd yn oed â chefnogaeth y sector cyhoeddus, y byddai darparu cyfleusterau'n uniongyrchol hyd yn oed i'r gymuned ehangach yn cael ei ystyried yn gadarnhaol.

  Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai hyn atal cyflogwyr rhag gwneud mwy i ychwanegu at y manteision a allai ddod i fusnesau trwy gymryd camau cadarnhaol i gynnig cefnogaeth i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu. Gallai ymgyrchoedd i gynyddu ymwybyddiaeth trwy brosiectau sydd wedi eu sefydlu'n barod, fel y Gronfa Her Cydbwysedd Gwaith-Bywyd sy'n helpu cwmnïau i gyflwyno polisïau sy'n ffafriol i deuluoedd yn y gweithle, wneud llawer. Dylid asesu cynlluniau ymarfer da eraill er mwyn annog darpariaeth sy'n cael ei rhannu yn y gymuned rhwng grwpiau o bob oedran o amgylch clystyrau o fentrau bach a chanolig eu maint sy'n bodoli'n barod, er enghraifft y 'Prosiect Enghreifftiol Plant dan 5', a'r prosiect 'Childcare Means Business' sy'n gweithio gyda chyflogwyr yn Leeds.

- Rhaid annog gofal priodol a rhesymol ei bris o safbwynt y galw a'r cyflenwad. Mae angen asesu potensial marchnad y 'diwydiant gofalu' yn ôl ei haeddiant fel sector gwasanaeth sydd ar gynnydd ac a fydd yn denu pobl sy'n awyddus i fentro. Rôl y sector cyhoeddus wedyn yw pontio'r gagendor hwn yn y farchnad hyd nes y bydd y sector preifat yn dod i mewn. Yn ôl *Caring for the Economy* (Miller Research, 1999) mae tua 10,000 o bobl yn cael eu cyflogi ym maes gofal plant ac mae'r sector yn werth tua £120 miliwn y flwyddyn. Awgrymir y dylid hyrwyddo'r cyfleoedd posib y mae gofal plant yn eu cynnig i fusnesau trwy'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch.

6. Mae Cynllun Corfforaethol drafft yr Awdurdod Datblygu ar gyfer 2002-2005 yn hyrwyddo'r farn bod busnesau cystadleuol, pobl gystadleuol a chymunedau cystadleuol yn dibynnu ar ei gilydd, ac na ellir hyrwyddo un heb y ddau arall. Mae gofal plant yn amlwg yn bwysig i bobl gystadleuol a chymunedau cystadleuol, ac mae'r Awdurdod Datblygu'n awyddus i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn datblygu mwy ar ei waith yn y maes hwn lle gall wella economi Cymru.

7. Mae gan awdurdodau lleol, fel y partneriaid arweiniol yn y gwaith o ddatblygu cymunedau, ran bwysig i'w chwarae wrth fanteisio, er enghraifft, ar botensial adeiladau ysgolion ar gyfer gofal dydd cysylltiedig a defnydd ar gyfer pob oedran ar ôl oriau ysgol.

**Cynigion**

8. Mae'n amlwg bod gan ddarpariaeth gofal plant y potensial i ryddhau nifer sylweddol o fenywod i ddychwelyd i'r farchnad lafur, ond nid gofal plant yw'r unig beth sy'n gallu rhwystro pobl rhag chwilio am waith. Mae'r tueddiadau demograffig cyfredol yn golygu bod pobl yn byw'n hwy ac mae hyn o ganlyniad yn arwain at gynnydd yn yr angen am ofal i'r henoed. Teimlai rhai aelodau o'r grwp y gallai'r straen o ofalu am rieni neu berthnasau oedrannus fod yn gymaint o rwystr rhag gweithio â gofalu am blant. Y casgliad y deuir iddo yw y gellid ystyried gofalu fel un elfen yn hytrach na dwy elfen ar wahân, gofal plant a gofal am yr henoed. Mae'n dilyn hefyd, gan nad yw'r gwaith yn cael ei gydlynu trwy Gymru ar hyn o bryd, y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos mwy o arweiniad yn y maes hwn.

9. Maes arall, yw gofal ar gyfer plant o wahanol oedran. Ar hyn o bryd, os yw teulu'n chwilio am ofal plant ar gyfer dau neu fwy o blant o wahanol oedran e.e. 6 mis a 6 oed, mae'n debyg y byddant yn gorfod dod â nifer o wahanol ofalwyr at ei gilydd i ffurfio pecyn gofal ar gyfer y ddau blentyn. Gallai'r gwahanol ofalwyr hyn yn hawdd fod mewn safleoedd ar wahân, a phe na bai un gofalwr ar gael ar ddiwrnod arbennig gallai hyn effeithio mewn gwirionedd ar y pecyn cyfan. Teimlai'r grwp fod y cymhlethdodau hyn mewn gwirionedd yn rhwystr arall i deuluoedd sydd am drefnu gofal plant er mwyn hwyluso'u gwaith. Mae'r grwp yn argymell bod mwy o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn er mwyn gweld sut y gellir llunio "pecynnau" gofal mwy effeithiol.

10. Roedd y grwp yn cytuno y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu noddi ganddo chwarae mwy o ran wrth ddangos yr arferion gorau ym maes gofal plant ac arferion sy'n ffafriol i deuluoedd. Gallai cyfweliadau ymadael gan y cyrff sector cyhoeddus hyn fod yn un ffordd o asesu'r gwir alw am ofal plant. Os yw darpariaeth y sector cyhoeddus yn y maes hwn yn wael, nid yw mewn sefyllfa i ddylanwadu'n effeithiol ar y sector preifat.

11. O safbwynt y cyflenwad a'r galw, mae'n bosib, mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth gofal plant yn wael, bod y galw am ofal plant hefyd yn isel gan nad oes llawer o alw am weithwyr. Fodd bynnag, teimlai'r grwp y byddai pobl a oedd yn dychwelyd i'r gweithlu, pe darperid gofal plant am bris rhesymol yn yr ardaloedd hyn, yn gallu teithio'n haws i ardaloedd cyfagos mwy ffyniannus ac y byddai hefyd yn haws iddynt gael hyfforddiant a gwella'u sgiliau o ganlyniad.

12. Gallai llawer o gyflogwyr canolig eu maint benderfynu'n gwbl gymwys nad yw'n effeithlon cynnig unrhyw fath o ddarpariaeth gofal plant ar eu safleoedd. Er bod amheuon gan rai, roedd y grwp yn teimlo ei bod yn dal yn werth edrych ar y potensial i gwmnïau ymwneud â darpariaeth gofal plant yn y gymuned leol, a bod potensial i ddarpariaeth o'r fath ddod i ariannu ei hun, neu greu cyfleoedd ar gyfer busnesau sy'n gysylltiedig â gofal. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n bosib y gallai'r sector cyhoeddus chwarae ei ran trwy ganfod a gweithio gyda chyflogwyr a allai gynnig cynllun o'r fath.

**Casgliad**

13. Mae angen cydnabod bod gofalu am blant a phobl eraill sy'n ddibynnol yn rhwystr cynyddol a difrifol rhag gwneud defnydd llawn o sgiliau, talentau a gallu entrepreneuraidd menywod yn y gweithlu, er nad menywod yn unig.

14. Rhaid sicrhau bod y gymuned fusnes yn gweld manteision economaidd rhyddhau'r rhan hon o'r gweithlu posibl. Yn ychwanegol at hyn mae angen pwysleisio manteision cefnogi gofal plant ffurfiol o safbwynt y cynnydd yn sgiliau ieithyddol a chymdeithasol gweithlu'r dyfodol.

15. Er bod gan y wladwriaeth ran i'w chwarae rhaid iddi ganolbwyntio ar gynyddu hygrededd a statws y proffesiynau gofalu, gan sicrhau bod y cyfuniad priodol o ddarpariaethau gofal ar gael a bod darpariaeth ar gyfer dewis cwsmeriaid. Rhaid i hyn olygu cyfranogiad eang gan y sector preifat.

16. Mae ymchwil gan y Ganolfan Astudiaethau Polisi Teulu'n dod i'r casgliad y bydd y galw am waith gofal o bob math yn cynyddu, ac nad yw dibyniaeth ar y llafur presennol, menywod yn aml, sydd heb lawer o addysg, sydd heb lawer o hyfforddiant, os o gwbl, ac sy'n barod i weithio am gyflogau isel, yn dderbyniol nac yn gynaliadwy mwyach. Rhaid cyflwyno hyfforddiant a strwythurau galwedigaethol newydd gydag amodau gwaith cyfatebol. Er enghraifft, er mai gwarchodwyr plant sy'n gyfrifol am 25% o'r plant sy'n derbyn gofal gan rywun ar wahân i'w rhieni, nid oes strwythur ffurfiol ar gyfer gyrfa na chyflogau.

**Argymhellion**

- Roedd aelodau'r Tasglu Gofal Plant yn cynrychioli diddordebau eang iawn. Ond gallai'r ffaith fod cynifer o asiantaethau a buddianwyr yn gysylltiedig â'r Tasglu lesteirio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu gyda ffocws pendant. Rydym felly'n argymell y dylid sefydlu trefniadau parhaol, sy'n sicrhau bod arweiniad y Cynulliad a'r cyfeiriad y mae'n ei roi yng nghyswllt y strategaeth gofal plant yn cael eu cefnogi gan gyngor gan y gwahanol sectorau cysylltiedig.

- Dylid gwneud ymchwil helaeth i'r farchnad er mwyn canfod beth yw maint, cwmpas a photensial y farchnad Ofal yng Nghymru ar hyn o bryd, a beth allai fod yn y dyfodol, a rhoi hwb iddi. Byddai'r Awdurdod Datblygu'n barod i ymgymryd â'r rhan hon o'r strategaeth er mwyn canfod a chefnogi diwydiannau sydd ar gynnydd yn y sector gwasanaeth.

- Dylid datblygu cronfa ddata gynhwysfawr o'r gwasanaethau gofal sydd ar gael a'i hybu trwy gyfrwng asiantaethau cyflogaeth a sefydliadau busnes, yn amodol ar gyfrinachedd ac ystyriaethau amddiffyn plant.

- Ochr yn ochr â darpariaeth sy'n seiliedig ar adeiladau a gweithgareddau, dylid ystyried gwella statws gwarchod plant yng Nghymru. Gellid gwneud hyn trwy greu rhwydwaith cenedlaethol, sydd wedi cofrestru a derbyn hyfforddiant, a chynnig cefnogaeth lle bo angen trwy ddefnyddio cronfeydd strwythurol i ariannu bylchau. Byddai'r posibilrwydd o incwm gwarantedig yn annog pobl i ymuno â'r gweithlu gofal plant, a byddai ariannu bylchau'n pontio'r gagendor yn y pris y gall rhieni ei fforddio. Gellid cynnwys strategaethau ymadael priodol er mwyn annog y sector preifat i ddod yn rhan o'r farchnad.

# PENNOD 3

## RECRIWTIO A HYFFORDDI

Hwylusydd y Grwp: Nigel Levi, ELWa

**Pwrpas**

- Edrych sut y gellir cwrdd â'r galw disgwyliedig am fwy o weithwyr gofal plant yn unol â nod y Cynulliad o gynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yng Nghymru;

- Trafod sut y gellir newid delwedd y sector a chanfyddiad pobl ohono;

- Sicrhau bod isadeiledd hyfforddi wedi ei sefydlu er mwyn cwrdd â'r galw, ond ei fod hefyd yn rhwydd i gael gafael arno ac yn rhesymol ei bris.

**Cyflwyniad**

1. Mae nifer o brosiectau ac adroddiadau ymchwil wedi eu gwneud gan nifer o sefydliadau, ac mae llawer ohonynt yn dod i gasgliadau tebyg mewn perthynas â recriwtio a hyfforddi:

    i) mae llawer iawn o hyfforddi'n cael ei wneud ond nid yw wedi ei gydlynu;

    ii) mae'r arian sydd ar gael weithiau'n anodd i gael gafael arno neu heb fod yn ddigon i dalu am yr hyfforddiant;

    iii) mae'r sector yn dameidiog ac yn anodd i'w ddiffinio gan ei fod yn gorgyffwrdd cryn dipyn â sectorau perthynol, fel gofal, iechyd a gwaith chwarae gan ei gwneud yn anodd i nodi pob un sy'n gysylltiedig;

    iv) nid yw delwedd y sector o gyflog isel ac oriau anhylaw ynghyd â'r ffaith ei fod yn cael ei weld fel galwedigaeth ar gyfer menywod yn bennaf yn helpu i annog pobl i ymuno â'r diwydiant.

2. Er mwyn cwrdd â'r galw am weithwyr yn y dyfodol, rhaid cael cyflenwad digonol o'r bobl iawn gyda'r sgiliau iawn.  Mae hyn yn golygu bod angen darlun clir o'r galw tebygol a rhwydwaith cydlynol o ddarpariaethau hyfforddi sydd wedi ei fynegi yr un mor glir.  Er mwyn i hyn ddigwydd rhaid ystyried sicrhau bod isadeiledd wedi ei sefydlu ac y bydd yn gallu dygymod ag unrhyw ehangu.

## Y Sefyllfa Bresennol

### Hyfforddiant

3. Fel y soniwyd yn gynharach mae llawer iawn o waith hyfforddi'n cael ei wneud yng Nghymru ond nid oes llawer o gydlynu rhwng y sefydliadau sy'n ymwneud â'r gwaith. Mae llawer o hyn yn gysylltiedig â'r ffaith nad oes arian hyblyg a thymor hir ar gael.

### a) Prentisiaethau Modern a Rhaglenni Cenedlaethol i Hyfforddeion

Mae nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r rhaglenni hyn mewn gofal plant yn gymharol isel o gymharu â sectorau eraill yng Nghymru a hynny'n bennaf oherwydd tri ffactor:

i) delwedd y sector a'r cyflog isel;
ii) y math o berson ifanc sy'n mynd am hyfforddiant yn gyffredinol;
iii) cyflwyno sgiliau allweddol gyda phrofion.
iv) Mae llawer o'r unigolion sy'n dewis gofal plant dros 25 a heb fod yn gymwys i dderbyn arian dan y trefniadau presennol. Gallai cyflwyno'r Ddiploma Sgiliau Modern newydd ar gyfer Oedolion helpu i ddenu rhai yn y grwp hwn ond ni fydd yn berthnasol i'r mwyafrif helaeth o'r gofalwyr sy'n gweithio'n is nag NVQ Lefel 3.

### b) Darpariaeth Coleg

Mae darpariaeth coleg yn denu nifer dda o unigolion, tua 4,000 y flwyddyn ar gyfartaledd ac mae nifer sylweddol o'r rhain ar gyrsiau ar wahân i gyrsiau NVQ. Mae'r myfyrwyr yn dod o amrediad o grwpiau oedran, y rhan fwyaf ohonynt yn 16 i 18 oed a 25 i 39 oed. Ond prin iawn yw'r wybodaeth sy'n dangos faint sy'n aros ym maes gofal plant.

### c) Gwarchod Plant

Mae gwarchod plant yn rhan bwysig o'r sector. Mae tua 2800 o warchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru, tua 1000 yn llai nag yn 1999. Fodd bynnag, mae'r arian ar gyfer eu hyfforddi fel arfer wedi bod y tu allan i arian prif ffrwd, gan wneud datblygiad tymor hir a thwf cynaliedig yn anodd. Mae angen dull gweithredu strwythuredig, gydag arian cynaliadwy tymor hir.

### ch) Hyfforddi'r Hyfforddwyr

Yn y sector gofal plant yn ei gyfanrwydd, mae prinder pobl gymwysedig i ddarparu'r hyfforddiant sydd ei angen. Mae elfen o'r "cyw a'r ŵy" yn hyn oherwydd os na fydd digon o hyfforddeion ni fyddwn yn gallu denu a chadw digon o hyfforddwyr o'r ansawdd priodol.

Rhan hanfodol arall o'r ddarpariaeth gofal plant yw'r rhwydwaith teuluoedd a ffrindiau sy'n gweithredu fel gofalwyr. Yn ddelfrydol, dylid ystyried

anghenion hyfforddi'r grwpiau hyn hefyd. Fodd bynnag, byddai'n anodd eu canfod, ac nid yw gofal anffurfiol yn cael ei reoleiddio mewn unrhyw ffordd. Gallem ddarparu cyfleoedd ond ni allem ddisgwyl i bobl fanteisio arnynt.

**Fframwaith Cymwysterau**

4. Byddai statws a pherthnasedd hyfforddi'n cael ei wella'n sylweddol pe bai'r ddarpariaeth hyfforddi'n cael ei chysylltu â fframwaith cymwysterau cydnabyddedig. Mae'r sylfaen ar gyfer hyn yn bodoli'n barod yn Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ACCAC ar gyfer Addysg y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Y bwriad yw cynnwys pob cymhwyster allanol sydd wedi ei achredu, ac eithrio'r rhai hynny sy'n cael eu dyfarnu gan sefydliadau addysg uwch.

**Cyllid**

5. Gellir rhannu hyfforddiant gofal plant yn fras i ddau gategori; mae'r categori cyntaf yn un tymor hir ac yn cefnogi cyrsiau coleg ac NVQs; mae'r ail yn cefnogi gweithgareddau hyfforddi eraill, ac fel arfer yn ymdrin â'r tymor byr.

**a) Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant - ELWa**

6. Roedd yr arian sy'n cael ei weinyddu ar hyn o bryd gan y Cyngor Cenedlaethol yn cael ei weinyddu hyd Ebrill 1af 2000 gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter a'r Cyngor Ariannu Addysg Bellach. Er bod swyddogaethau'r cyrff hyn bellach wedi eu dwyn ynghyd dan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant - ELWa, mae'r trefniadau ariannu a etifeddwyd yn aros yn ddigyfnewid ar y cyfan ar gyfer 2001/2002:

i) Ariennir darpariaeth coleg gan drefniadau blaenorol Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ac ar y cyfan maent yn gymwysterau ar wahân i NVQ;
ii) Ariennir darpariaeth NVQ ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed trwy'r trywydd Prentisiaeth Fodern a Rhaglenni Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddeion gan ddefnyddio patrwm blaenorol y Cynghorau Hyfforddi a Menter;
iii) Ar gyfer y rhai hynny sydd dros 25 oed, ceir cynllun peilot Diploma Sgiliau Modern ar gyfer Oedolion, sydd wedi ei dargedu ar gyfer y rhai hynny sydd ar NVQ Lefel 3.

**b) Ffynonellau Ariannu Eraill**

7. Y prif beth sy'n achosi pryder gyda ffynonellau ariannu eraill yw eu bod wedi bod yn rhai tymor byr. Nid ydynt wedi caniatáu ar gyfer sefydlogrwydd na thwf isadeiledd y sector ac, o ganlyniad, mae gwaith hyfforddi a recriwtio wedi tueddu i fod yn ysbeidiol, heb unrhyw gefnogaeth i dwf cynaliadwy yn y tymor hir.
i) Mae'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant – ELWa yn

adolygu ei ymrwymiadau ariannu ar gyfer llawer o wahanol gynlluniau lleol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd faint fydd cyfanswm yr arian fydd ar gael na pha elfen o'r swm hwn y gellid ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gofal plant. Yn y gorffennol, byddai'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn defnyddio cronfeydd dewisiadol lleol i'r pwrpas hwn ond ar y cyfan roeddent yn gronfeydd tymor byr neu'n arian er mwyn rhoi hwb cychwynnol i brosiectau arbennig.

ii) Mae arian Ewropeaidd wedi bod yn cael ei ddefnyddio hefyd fel ffynhonnell ariannol ac mae'n amlwg y gellid defnyddio arian Ewropeaidd eto yn y dyfodol gyda chynigion sy'n cael eu gwneud dan yr Amcan priodol.

iii) Gallai'r Gronfa Cyfleoedd Newydd hefyd fod yn ffynhonnell ariannu bwysig arall.

**Delwedd y Sector**

8. Mae'r sector gofal plant yn amrywiol iawn, gyda dimensiynau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae teitlau swyddi'r unigolion sy'n ymwneud â'r sector yn amrywio ac mae eu gofynion hyfforddi hefyd yn amrywio'n fawr. Yn gyffredinol, mae cyflogau isel wedi gwneud i lawer, gan gynnwys rhieni, feddwl nad oes angen llawer o sgiliau i weithio fel gofalwyr. Mae angen newidiadau sylfaenol er mwyn newid y tybiaethau hyn.

9. Mae rhywfaint o waith wedi ei wneud yn barod er mwyn rhoi sylw i broblem delwedd y sector. Yn fwyaf arbennig, cynhyrchwyd fideo yn dwyn y teitl "Making Choices" gan Gorff Hyfforddi Cenedlaethol y Blynyddoedd Cynnar, ac mae ACCAC wedi cynhyrchu Fframwaith Cenedlaethol o gymwysterau ar gyfer y sector. Yn ychwanegol at hyn, mae Cymdeithas y Meithrinfeydd Dydd Cenedlaethol wedi cynhyrchu pecyn Recriwtio a Dewis sy'n ceisio cynnig cymorth i gyflogwyr ym maes dewis staff ac mewn meysydd fel swydd-ddisgrifiadau, contractau gwaith ac yn y blaen.

**CASGLIADAU**

10. Er bod llawer o enghreifftiau o ymarfer da, neu ymarfer rhagorol hyd yn oed ym maes recriwtio a hyfforddi ar gyfer gofal plant yng Nghymru, maent yn dameidiog ac yn afreolaidd. Mae hyn yn rhannol oherwydd y rhesymau isod:

- Mae'r sector yn rhy ddibynnol ar gael ei "arwain gan y farchnad" ac nid yw hyn yn helpu i ddatblygu gofal plant sy'n lleol ac o fewn cyrraedd rhwydd;

- Mae cyfraddau cyflog isel llawer o'r gofalwyr yn effeithio ar y modd y mae pobl yn gweld y sector.

**CYNNIG**

11. Er mwyn rhoi sylw i faterion recriwtio a hyfforddi, cynigir y canlynol:

- Sicrhau bod y cyflenwad yn gyson â'r galw tymor hir;

- Sicrhau bod y trefniadau ariannu a'r gefnogaeth yn llai tameidiog a'u bod yn drefniadau tymor hir er mwyn caniatáu cynaladwyedd a thwf isadeiledd priodol ar gyfer hyfforddi a datblygu sydd wedi ei anelu at y gweithwyr sydd yn y sector ar hyn o bryd a'r rhai newydd fydd yn dod i mewn i'r sector;

- Sicrhau bod y strategaeth hyfforddi a recriwtio'n ystyried pwnc yr iaith;

- Sicrhau bod yr holl hyfforddiant o ansawdd da bob amser ym mhob agwedd ar ofal plant, ac ym mhob rhan o Gymru;

- Llunio rhaglen weithredu er mwyn trawsnewid statws gofal plant a gofal plant fel gyrfa.

12. Er mwyn sicrhau bod modd gwneud hyn a bod modd ei gynnal, mae'n hanfodol ein bod yn deall yn iawn beth yw'r galw a pha batrwm cyflenwi sydd ei angen er mwyn cwrdd â'r galw.  Mae hyn yn galw am fwy o waith ac am ddadansoddiad a ddylai edrych ar yr elfennau isod:

- Pa lefelau sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen mewn gwahanol rannau o Gymru?

- I ba raddau y mae lefel bresennol y sgiliau a'r cymwysterau'n cwrdd â'r anghenion hyn?

- Ar sail yr uchod, beth yw'r gagendor rhwng y cyflenwad presennol a'r cyflenwad yn y dyfodol?

- Faint fyddai'r gost, a faint o amser fyddai'n ei gymryd i sicrhau bod y gagendor yn cael ei bontio?

13. Bydd y dadansoddiad yn darparu'r sylfaen, gan ystyried polisïau a blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i benderfynu pa elfennau o'r rhaglen hon ddylai gael blaenoriaeth.

14. Byddai angen i'r gwaith hwn hefyd ddarparu gwybodaeth ar gyfer y dasg o gynllunio rhaglenni er mwyn codi statws gofal plant fel gyrfa.

**Proses**

15. Er mwyn cyflawni'r amcan tymor hir awgrymir y dylid:

- Gwneud mwy o waith ymchwilio a dadansoddi;

- Ceisio cael arian i wneud y gwaith hwn, gan gynnwys arian i gael staff priodol a chanfod corff priodol i wneud y gwaith. *(Gweler y bennod ar Sicrhau Cymaint o Adnoddau ag sy'n Bosib).*

16. Ni ddylai'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith fod yn hwy na 12 mis, ond bydd hyn yn dibynnu a ellir dod o hyd i ffynhonnell ariannol addas a dilyn y prosesau priodol.

17. Awgrymir hefyd y byddai, yn y tymor byr, yn werth parhau â'r gwaith ar y canlynol:

i) Bydd y patrymau "craidd" a "chlwstwr" ar gyfer cefnogaeth gofal plant *(gweler Gofal Plant i Gwrdd ag Anghenion Plant, Teuluoedd a Chymunedau)* yn effeithio ar hyfforddiant, felly, mae'n holl bwysig bod y rhain yn cael eu nodi a bod arian yn cael ei ganfod er mwyn caniatáu i'r hyfforddiant ddigwydd;

ii) Er mwyn helpu gyda'r broses recriwtio a chadw staff mae'n hanfodol ein bod yn datblygu cyrsiau cyffredinol ar gyfer dechreuwyr. Mae enghreifftiau da o'r rhain i'w gweld yn barod, gan gynnwys rheoli ymddygiad, chwarae plant, glendid bwyd sylfaenol a chymorth cyntaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y cyrsiau hyn yn cael eu cydnabod a bod yr arian ar eu cyfer yn arian tymor hir. Gellid rhoi sylw i hyn trwy gyflwyno grant hyfforddi *(gweler y bennod ar Sicrhau Cymaint o Adnoddau ag sy'n Bosib)*;

iii) Un o'r meysydd pwysicaf yn y strategaeth recriwtio a hyfforddi ar gyfer gofal plant yw datblygiad pellach strwythur gyrfa sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n bodoli'n barod ond sy'n sicrhau bod pob cymhwyster yn cael ei gydnabod gan y sector cyfan, gan gynnwys y cyrsiau cyffredinol uchod. Yn ychwanegol at hyn, dylid annog y sector cyhoeddus i arwain y ffordd gyda hyn trwy ddefnyddio'r cymhwyster fel gwobrau priodol.

18. Fel y nodwyd uchod ac yn y *bennod ar Sicrhau Cymaint o Adnoddau ag sy'n Bosib* rhaid ystyried y goblygiadau ariannol a bydd angen chwilio am ffynonellau addas.

**Argymhellion**

- Penderfynu pa un yw'r ffynhonnell ariannu fwyaf priodol ar gyfer gwaith i ymchwilio a dadansoddi'r Sector Gofal Plant cyn Rhagfyr 2001.

- Ar ôl cael yr arian, cwblhau'r gwaith ymchwilio a dadansoddi cyn Hydref 2002.

- Dylid gwneud cais am arian allweddol i ddatblygu'r cyrsiau cyffredinol ar gyfer dechreuwyr a hyfforddiant priodol arall fel cam tymor byr.

- Sicrhau bod y cymwysterau a'r cyrsiau'n cael eu hystyried gan ELWa fel rhan o'u hadolygiad cyllid parhaus.

- Gweithio gyda sefydliadau sy’n bartneriaid er mwyn datblygu a chefnogi’r patrymau canolfannau plant integredig ym mhob cwr o Gymru.

- Sicrhau bod pob un sydd â rhan allweddol i’w chwarae yn y sector yn ymwneud â’r gwaith o sefydlu fframwaith o ansawdd da ar gyfer hyfforddiant, sy’n cael ei gefnogi gan arolygu ac arfarnu priodol.

# PENNOD 4

## CEFNOGAETH, ISADEILEDD A GWYBODAETH

Hwylusydd y Grwp: Ruth Marks, Chwarae Teg

### Pwrpas y grwp

- Ystyried agweddau ar y strategaeth genedlaethol gofal plant y dylid ei datblygu trwy Gymru, sy'n ymwneud â chefnogaeth, isadeiledd a gwybodaeth.

### Cyflwyniad

1. Nid oes gan yr amrediad presennol o drefniadau cefnogi, isadeiledd a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru strategaeth na chyfeiriad cyffredinol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithio mewn partneriaeth er mwyn datblygu fframwaith, sy'n cwrdd ag anghenion plant, eu rhieni a'u cynhalwyr, cyflogwyr a'r gymdeithas a'r economi gyffredinol yng Nghymru.

2. Mae'r prif ffynonellau cefnogaeth, isadeiledd a gwybodaeth am wasanaethau plant i'w gweld yn yr awdurdodau lleol, ar ffurf partneriaethau datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae cyfansoddiad a statws Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (yn yr awdurdodau lleol) yn amrywio'n fawr trwy Gymru a chroesewir y gwaith o sefydlu consortiwm o gydlynwyr trwy Gymru gyfan (AWARE).

3. Mae mudiadau gwirfoddol cenedlaethol, gan gynnwys PPA (Cymru), Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM), Chwarae Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant hefyd yn darparu amrediad o wasanaethau fel rhan o'r ddarpariaeth gofal plant gyffredinol yng Nghymru.

4. Mae gwasanaethau gwybodaeth ynddynt eu hunain wedi eu datblygu mewn rhai awdurdodau lleol (Wrecsam yn fwyaf arbennig) ac mae Gwasanaethau Gwybodaeth Gofal Plant Cymru yn cael ei weld fel prototeip defnyddiol ar gyfer datblygu system genedlaethol yn seiliedig ar y We.

5. Rydym yn sylweddoli bod darparu'r gefnogaeth ymarferol yr oedd ei phartneriaid yn galw amdani wedi bod yn gryn her i'r Is-adran Plant a Theuluoedd. Mae'n ceisio gweithio gyda hwy er mwyn datblygu strategaeth a chyfarwyddyd. Croesewir hyn gan y sectorau (cyhoeddus a gwirfoddol). Ond mae'r dull hwn o weithredu yn golygu pwysau ychwanegol hefyd o safbwynt ymgynghori, cymryd rhan mewn gweithgorau a mynychu cyfarfodydd.

## Cynnig

### Gofynion tymor byr sy'n ymwneud â'r arferion gorau

6. Mae angen cyfarwyddyd cynllunio ar gyfer Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant o 2002 ymlaen. Mae rhan helaeth o'r sylfaen ar gyfer y cyfarwyddyd yn bodoli'n barod mewn dogfennau eraill. Yr hyn sydd ei angen yw adolygiad, dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol a chyfarwyddyd wedi ei ddiweddaru.

7. Awgrymir bod gwas sifil penodol o'r Is-adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael ei ddewis ar gyfer y prosiect hwn a hynny ar unwaith. Cyfrifoldeb y person hwn fydd adolygu'r cyfarwyddwyd a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 1999, cwrdd â Phartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ac eraill sydd â rhan allweddol i'w chwarae yng Nghymru, a hefyd gymharu cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr.

8. Dylid cyhoeddi cyfarwyddyd drafft cyn diwedd y flwyddyn fel bod modd cynhyrchu'r ddogfen derfynol yn Chwefror 2002 ar gyfer blwyddyn ariannol 2002–03. Os nad oes gwas sifil penodol ar gael cynigir bod gweithiwr ar secondiad neu berson arall yn cael ei ganfod i wneud y gwaith hwn.

9. Dylai'r cyfarwyddyd gynnwys y pum pwynt / egwyddor strategol isod: -

- ansawdd
- pa mor rhesymol yw'r gost
- pa mor rhwydd yw cael gafael arno
- amrywiaeth
- partneriaeth

10. Bydd angen cynnwys y strategaethau isod yn y cyfarwyddyd: -

- strategaeth ansawdd gwasanaethau
- strategaeth recriwtio
- strategaeth hyfforddi a datblygu
- strategaethau ar gyfer datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth Plant
- strategaeth ariannu.

(Gweler Atodiad 1)

### Isadeiledd

11. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sefydliadau gofal plant cenedlaethol a gwasanaethau lleol, o safbwynt y bartneriaeth strategol sydd wedi ei ffurfio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn canolbwyntio ar gynllunio tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Y pwnc pwysicaf o safbwynt isadeiledd yw darpariaeth gynaliedig.

12. Argymhellir felly bod cyllid tair blynedd yn cael ei warantu a'i ddyrannu ar gyfer y cyfnod 2002-05. Bydd hyn yn caniatáu i bawb sy'n ymwneud â'r

gwaith o gynllunio a chyflwyno'r strategaeth genedlaethol ar gyfer gofal plant yng Nghymru ganolbwyntio ar gyflwyno a chynllunio yn hytrach na phryderon blynyddol yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch ariannu neu gael gwybod am arian.

13. Mae cyfanswm o £5.05m ar gael ar gyfer y strategaeth yn 2002-03.
Mae'r gefnogaeth a roddir i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn ystod y flwyddyn gyfredol yn £1.4m.
Mae'r gefnogaeth a roddir i sefydliadau gofal plant cenedlaethol yn ystod y flwyddyn gyfredol yn £0.9m.
Mae'r gwahaniaeth rhyngddynt ar gael ar gyfer datblygu strategol.

14. Dylai'r strategaeth genedlaethol gofal plant ymgyrchu neu anelu'n gyffredinol at gwrdd â'r anghenion a nodwyd ar gyfer plant, eu rhieni a chynhalwyr a Chymru gyfan. O safbwynt darparu gwasanaethau plant, sicrhau bod digon o lefydd o safon uchel, gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr ar gael, a bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. Bod hyfforddiant parhaus, sicrwydd ansawdd ac arfarniad yn cael eu gwneud yn rhan o'r strategaeth sy'n cylchdroi. Dylid ffurfio cysylltiadau yma â'r is-grwp sicrhau adnoddau, y Gronfa Cyfleoedd Newydd a chronfeydd Ewropeaidd.

**Agweddau ar adnoddau dynol**

15. Mae angen strategaeth recriwtio, cadw a hyfforddi staff. Dylid ffurfio cysylltiadau yma â'r is-grwp hyfforddiant, Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.

**Gwybodaeth**

16. Mae angen gwasanaethau gwybodaeth ar lefel leol a chenedlaethol. Mae rhai awdurdodau lleol (yn enwedig Wrecsam) wedi datblygu gwasanaethau gwybodaeth yn eu hardaloedd. Mae angen mwy o gefnogaeth a chyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n briodol i'w hardaloedd. Mae ar y gwasanaeth lleol angen cynllunio, dylunio a datblygu TG yn ogystal ag elfen ddynol er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau. Ni ddylid anghofio pwysigrwydd cysylltiadau priodol â system genedlaethol. Efallai y byddai is-grwp o fewn AWARE yn hoffi helpu i gynllunio a datblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer y ddarpariaeth Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Plant yn lleol. Mae cyfres o safonau gwasanaeth sylfaenol y gellid eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer datblygiadau trwy Gymru yn bodoli'n barod. (Gweler Atodiad 1)

17. Mae dau gyswllt mewn perthynas â datblygu system genedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Plant Cymru a ddatblygwyd gan Chwarae Teg mewn partneriaeth â nifer o gyrff eraill wedi bod yn brototeip defnyddiol. Ond nid yw'r system yn seiliedig ar y We ac mae angen llawer iawn o waith diweddaru a chynnal a chadw. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gwneud trefniadau gyda system yn y DU - Cyswllt Gofal Plant. Ar hyn o bryd mae gwybodaeth Cyswllt Gofal Plant yn gweithredu fel mynegbost ar gyfer y 22 awdurdod lleol. Argymhellir bod

grwp llywio'n datblygu strategaeth ar gyfer system genedlaethol i fanteisio ar y datblygiadau sy'n cael eu gwneud gan yr Arolygiaeth Safonau Gofal.

18. Bydd awdurdodau lleol wrth reswm yn awyddus i gael rhywfaint o reolaeth dros y gwaith o ddatblygu eu gwasanaethau gwybodaeth lleol. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru felly gyhoeddi cyfarwyddyd er mwyn sicrhau bod rhai agweddau yn digwydd trwy Gymru gyfan er mwyn gwneud y cysylltiadau priodol â system genedlaethol.

    Byddai hyn yn sicrhau nad yw'r arian sydd ar gael gan y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei ddyblygu wrth ddarparu gwasanaeth a'i fod yn cynnig y gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus yn y maes pwysig lle darperir gwasanaeth.

**Nodau yr hoffid eu cyflawni yn y tymor hir**

19. Nodir isod wahanol nodau y mae'r is-grwp yn credu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol a phartneriaid anelu at eu cyflawni yn ystod y cyfnod o ddwy i bum mlynedd sydd i ddod. Bydd angen mwy o weithio mewn partneriaeth a buddsoddiad ariannol er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Mae'r grwp yn credu bod yr eitemau a restrwyd yn adlewyrchu dull gweithredu sy'n seiliedig drwy'r adeg ar bartneriaeth, fframwaith pendant, a'r gwerth gorau a'u bod yn ffurfio rhan o strategaeth plant flaengar ar gyfer Cymru.

    Mae'n werth nodi unwaith yn rhagor y dylid sefydlu trefniadau ariannu 3-blynedd er mwyn i'r strategaeth allu datblygu rhywfaint o ddilyniant.

**Cefnogaeth**

20. Cydnabyddir yr adnoddau ychwanegol sydd wedi eu nodi gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dylid defnyddio ffynonellau ariannu eraill sydd ar gael i gynyddu'r swm hwn fel bod modd cwrdd â gofynion cynlluniau lleol a chenedlaethol. Mae adnoddau ychwanegol ariannol a dynol yn hanfodol er mwyn darparu rhaglen gefnogi gynaliadwy yn y tymor hir.

**Isadeiledd**

21. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, ELWa a'r Awdurdod Datblygu sefydlu grwp cefnogi a chynghori er mwyn trafod, ystyried, arfarnu a chynllunio yng nghyswllt y strategaeth genedlaethol gofal plant. Awgrymir y dylai'r fforwm hwn gyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Gallai fod yn ddilyniant o Dasglu presennol y Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant.

22. Byddai'r fforwm y cyfeirir ato uchod hefyd yn gwneud yn siwr bod penderfyniadau priodol sy'n ymwneud â chynllunio ariannol yn cael eu gwneud trwy'r Cynulliad er mwyn cyflwyno a datblygu'r strategaeth gofal plant. Mae cysylltiadau rhwng gwahanol adrannau'r Cynulliad yn hanfodol. Dylai'r cyfrifoldeb am hyn fod ar ysgwyddau'r Is-adran Gwasanaethau Plant

a Theuluoedd, er mwyn sicrhau bod cydweithwyr sy'n ymwneud â datblygu economaidd, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, polisi cymdeithasol a chyllid, awdurdodau lleol a phartneriaeth y sector gwirfoddol yn gwbl ymwybodol o'u cynlluniau a'u gwaith. Mae cysylltiad pwysig rhwng materion recriwtio, cadw a hyfforddi staff ac ELWa a'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol. (Gweler pennod yr is-grwp hyfforddiant.)

23. Byddai'r fforwm hefyd yn adolygu'r cyfarwyddyd cynllunio sydd i'w ddosbarthu i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r gwaith o gyflwyno cynlluniau lleol gan gynnwys darparu gwasanaethau gwybodaeth. Unwaith eto, un o'r nodweddion pwysicaf fydd y farn dymor hir ynghylch cynaladwyedd a dilyniant y strategaeth.

### Gwybodaeth

24. Bydd systemau lleol yn cael eu datblygu trwy Gymru, a byddant yn seiliedig ar y We ac yn cynnwys elfen adnoddau dynol. Bydd system genedlaethol hefyd yn cael ei datblygu ar y We a bydd cysylltiadau'n cael eu datblygu â'r safonau gofal yng Nghymru a hefyd ag unrhyw ddarpariaeth briodol yn y DU. Bydd llinell gymorth rad ac am ddim ar gael yng Nghymru.

25. Bydd gwasanaethau lleol a chenedlaethol yn cwrdd â'r safonau sylfaenol ac yn adeiladu cysylltiadau priodol gyda phatrymau trwy'r DU.

### Argymhellion

### Cefnogaeth ac isadeiledd

- Penodi gwas sifil neu weithiwr ar secondiad i baratoi cyfarwyddyd
- Adolygu'r cyfarwyddyd diwethaf a gyhoeddwyd i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, cymharu â chyfarwyddyd cyfredol sydd wedi ei gyhoeddi yn Lloegr a siarad gyda chydweithwyr ym mhob cwr o Gymru
- Drafftio cyfarwyddyd ar gyfer Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Trafod gydag awdurdodau lleol
- Cyhoeddi cyfarwyddyd
- Seminarau rhanbarthol / cynhadledd genedlaethol ar gyfer Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant er mwyn cyfarfod yr Is-adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant i gyfarfod ddiwedd Ionawr / dechrau Chwefror gan y bydd gwybodaeth ar gael am y gyllideb erbyn hynny
- Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant i gyfarfod ddechrau Medi i adolygu cynnydd a chynllunio ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

**Gwybodaeth**

**Datblygu gwasanaeth lleol: -**

- Angen cyfarwyddyd ar gyfer gwariant yn y flwyddyn ariannol hon.
- Angen cyfarwyddyd ar gyfer datblygiadau parhaus.
- Is-grwp posib i'w sefydlu oddi mewn i AWARE.

**Gwasanaeth gwybodaeth cenedlaethol: -**

- Cyfarfod y prif gyfranwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
- Datblygu manyleb ar gyfer datblygu system genedlaethol yn cysylltu gyda'r gwaith Safonau Gofal.
- Cyhoeddi tendr ar gyfer cwmni / person TG i wneud y gwaith datblygu, gosod, hyfforddi a'r strategaeth gynnal a chadw.
- Arolygu ac arfarnu.
- Pwnc perchenogaeth system genedlaethol.

# PENNOD 5

## SICRHAU CYMAINT O ADNODDAU AG SY'N BOSIB

Hwylusydd y Grwp: Jeanie Gray, Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

**Pwrpas y grwp**

- Ystyried sut i sicrhau cymaint o arian ag sy'n bosib ar gyfer darpariaethau gofal plant, cefnogi'r isadeiledd a datblygu a hyfforddi pobl sy'n gweithio ym maes gofal plant.

**Y Sefyllfa Bresennol**

**Y Cynulliad Cenedlaethol**

1. Mae'r Strategaeth Gofal Plant yn darparu cyfanswm o £3m y flwyddyn er mwyn cefnogi'r isadeiledd, a defnyddir yr arian hwn i gefnogi'r partneriaethau gofal plant a'r tîm datblygu sy'n gweithio i Chwarae Teg ar hyn o bryd. Cytunir yn gyffredinol nad yw hyn yn ddigon i gynnal isadeiledd digonol.

2. Yn y ddogfen sy'n dwyn y teitl Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth, mae'r Cynulliad yn cynnig y dylid cyfuno'r cynlluniau ariannu presennol o Ebrill 2002 ymlaen i ffurfio Cronfa newydd i Gynorthwyo Plant a Phobl Ifanc.

3. Mewn rhannau eraill o'r DU, defnyddiwyd arian adfywio i helpu i ddatblygu a chynnal darpariaeth gofal plant mewn cymunedau difreintiedig. Gallai arian Rhoi Cymunedau'n Gyntaf gyflawni rôl debyg yng Nghymru.

**Arian Ewropeaidd (Amcan 1& 3)**

4. Mae'n anodd sicrhau dull cynhwysfawr a strategol o ddatblygu gofal plant dan y rhaglenni Ewropeaidd. Mae oddeutu £22 miliwn ar gael o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, £18m trwy Amcan 1 a £4m trwy Amcan 3, ond mae'r arian ar gyfer nifer o flaenoriaethau sy'n cefnogi cynlluniau hyfforddi a datblygu'r economi. Mae datblygu gofal plant yn codi'n aml mewn blaenoriaethau Amcan 1 a than Amcan 3 fel cam i gynorthwyo gyda gwaith hyfforddi neu greu swyddi, ond nid fel ymyriad ynddo'i hun. Y rhagolygon mwyaf addawol yw Amcan 3 - Blaenoriaeth 5 ac Amcan 1 - Blaenoriaeth 4.

5. Mae rhai Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wedi llwyddo i sicrhau arian Ewropeaidd, er enghraifft, er mwyn darparu gwell gwasanaethau gwybodaeth ym maes gofal plant, gan gynnwys staff rhan-amser er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o Gredyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio a recriwtio mwy o weithwyr gofal plant. Mae eraill yn edrych ar gynigion posib. Mae'r gwaith hwn yn cael ei lesteirio gan ei bod yn

anodd cael gafael ar wybodaeth a chyngor am arian Ewropeaidd, ac mewn rhai Awdurdodau Lleol, gan nad oes llawer o gyswllt rhwng y rhai sy'n ymwneud â gofal plant a'r rhai sy'n gyfrifol am roi'r cynlluniau gweithredu lleol a'r Rhaglenni Ewropeaidd ar waith.

## Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

6. Mae gan y Gronfa £10m ar ôl yn ei rhaglen gyfredol hyd at 2003 ac £13m yn ei rhaglen newydd hyd at 2006 ar gyfer datblygu gofal plant.

   Defnyddid yr arian hyn, hyd yn ddiweddar, ar gyfer costau sefydlu am flwyddyn yn unig. Mae'r ffaith ei bod yn anodd cynnal cynlluniau, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, wedi ei chydnabod.

   Sicrhawyd bod cyfran o'r rhaglen bresennol ar gael ar gyfer ariannu 2$^{il}$ a 3$^{edd}$ flwyddyn yn y 30% sy'n cael eu disgrifio fel y rhanbarthau etholiadol mwyaf difreintiedig, gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog y Cynulliad. Bydd y rhaglen newydd yn ystyried cynaladwyedd, datblygu potensial, hyfforddiant, a gwariant cyfalaf a chwarae cynaliedig.

### Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio

7. Gall Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio dalu hyd at 70% o'r costau gofal plant cymwys. Nid oes llawer o bobl wedi manteisio ar y cynllun ac nid yw'r credyd yn gymwys i bobl sydd mewn hyfforddiant.

## Cyfalaf

8. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Cynulliad yn edrych ar ffyrdd o ariannu Canolfannau Gofal Plant Integredig, a allai wneud cyfraniad sylweddol i'r ddarpariaeth gofal plant, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Ceir mwy o wybodaeth am y canolfannau hyn yn y rhan o'r adroddiad sy'n sôn am Ddatblygu Gofal Plant i gwrdd ag Anghenion Plant, Teuluoedd a Chymunedau mewn Ardaloedd lle ceir Amddifadedd Cymdeithasol. Er hyn, mae'n debyg y bydd prinder ffynonellau buddsoddiad cyfalaf ar gyfer ehangu a gwella darpariaeth gofal plant prif ffrwd o hyd.

   **Beth sydd angen ei ariannu?**

   Nodwyd y canlynol fel y prif feysydd y mae angen eu hariannu.

   - Darpariaeth gofal plant, yn enwedig costau sy'n ymwneud â sefydlu a chynaladwyedd.

   - Isadeiledd datblygu a chefnogi er mwyn ffurfio sefydliadau gofal plant, helpu i gydgysylltu ceisiadau a chael gafael ar arian o wahanol ffynonellau.

- Buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau gofal plant.

- Hyfforddiant i bobl sy'n gweithio ym maes gofal plant a chyfle i gael gwaith da.

## Y Ffordd Ymlaen

## Gofal Plant Cynaliadwy

### Y Broblem

9. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae'n anodd defnyddio'r ffynonellau ariannol tymor byr i greu darpariaeth gofal plant gynaliadwy. Bydd angen cymhorthdal tymor hir yn y cymunedau mwy difreintiedig. Yn ychwanegol at hyn, er bod galw mawr mewn rhai ardaloedd, mae'r galw'n llai mewn ardaloedd eraill oherwydd ffactorau fel defnydd traddodiadol o deulu a ffrindiau, incwm yn rhy isel i dalu am ofal plant, fawr o gymhelliant i chwilio am hyfforddiant neu gyfleoedd ar gyfer gwaith. Prin hefyd yw'r ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth ariannol sy'n cael ei chynnig gan ELWa ar gyfer gofal plant i unigolion di-waith sydd mewn hyfforddiant.

### Cynnig

10. Dylid gwneud ceisiadau am Arian Ewropeaidd er mwyn ehangu'r ddarpariaeth gofal plant a'i galluogi i ddod i gynnal ei hun.

### Proses

11. Y ffordd fwyaf priodol fyddai trwy geisiadau strategol mewn cynlluniau gweithredu lleol. Gallai'r rhain fod wedi eu cydgysylltu gan Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant trwy strwythurau arian Ewropeaidd yr awdurdodau lleol. Byddai hyn yn golygu bod angen i Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ymwneud â'r gwaith o archwilio ceisiadau am arian Ewropeaidd. Er bod hyn yn cael ei wneud mewn rhai ardaloedd trwy sefydlu gweithgorau, mae angen ei ymestyn i ardaloedd eraill.

12. Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd yn nodi sut i gael gafael ar arian Ewropeaidd, ar gyfer prosiectau gofal plant. Dylai profiad Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant sydd wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus am arian Ewropeaidd, a'r arferion gorau / ffyrdd o roi gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o Gredyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio gael eu rhannu rhwng y Partneriaethau hefyd.

### Amserlen

13. Dylid dechrau gwneud ceisiadau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, ond byddai o fudd yn y dyfodol pe penodid Hwyluswyr Ariannu, y ceir mwy o wybodaeth amdanynt isod yn yr adran ar gefnogi a datblygu'r isadeiledd.

Yn y cyfamser dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a thimau datblygu gofal plant gyfnewid gwybodaeth.

### Adnoddau

14. Gellid defnyddio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac adnoddau presennol y Cynulliad i ddarparu arian cyfatebol.

## Cefnogi a Datblygu'r Isadeiledd

### Y Broblem

15. Hyn a hyn o adnoddau sydd gan Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a thimau datblygu gofal plant, ac yn gyffredinol maent yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl wrth gefnogi eu gweithgareddau craidd. Nid yw'n rhwydd iawn, felly, iddynt drefnu ceisiadau cymhleth ar gyfer nifer o ffynonellau ariannol. Mae angen ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer darpariaeth gofal plant gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd trwy ddefnyddio Arian Ewropeaidd. Ond nid oes sefydliad gofal plant arweiniol i gydgysylltu a datblygu cynigion Ewropeaidd trwy Gymru ar gyfer arian Amcan 1 ac Amcan 3.

### Cynnig

16. Cynigir bod ceisiadau rhanbarthol yn cael eu gwneud dan Amcan 1 a 3 ar gyfer tîm o Hwyluswyr Ariannu Ewropeaidd, yn cael ei reoli gan sefydliad arweiniol priodol. Byddai'r hwyluswyr hyn yn helpu Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a darparwyr gofal plant i baratoi ceisiadau am arian Ewropeaidd ac arian o ffynonellau eraill.

### Proses

17. Mae gwaith wedi ei wneud gan weithgor o fewn y Tasglu er mwyn gweithredu'r cynnig hwn a chanfod sefydliad priodol i ddatblygu ceisiadau.

### Amserlen

18. Dylid cyflwyno cais am arian ar gyfer yr hwyluswyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

### Adnoddau

19. Gallai'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y cais dan ei rhaglen 3ydd rownd, sy'n cynnwys elfen ar gyfer datblygu potensial.

## Hyfforddiant i weithwyr gofal plant

### Y Broblem

20. Mae prinder gweithwyr gofal plant cymwysedig yn golygu bod angen buddsoddi mewn hyfforddiant priodol. Yn ychwanegol at hyn mae angen sicrhau bod rhywrai ar gael i lenwi'r bwlch pan fo gweithwyr gofal plant a gwirfoddolwyr yn mynychu hyfforddiant.

### Cynnig

21. Cynigir bod un brif gronfa'n cael ei sefydlu dan Amcan 1 er mwyn darparu grantiau hyfforddi i weithwyr gofal plant. Bydd angen edrych ar y dewisiadau ar gyfer y rhannau hynny o Gymru sydd y tu allan i ardaloedd Amcan 1.

### Proses

22. Gallai'r patrwm a ddatblygwyd yng Ngogledd Iwerddon, gan yr Asiantaeth Hyfforddiant a Chyflogaeth ffurfio sylfaen ar gyfer y cynllun. Awgrymir y gellid defnyddio'r grantiau ar gyfer y gost o ennill y cymhwyster sydd ei angen. Gallai hyn gynnwys cost y cwrs, teithio a threuliau eraill a llenwi bwlch yn ystod absenoldeb.

23. Mae angen ystyried y cynnig hwn ar sail yr argymhellion sydd yn yr adran ar Recriwtio a Hyfforddi yn yr adroddiad hwn.

### Amserlen

24. Yn ddelfrydol mae angen gweithredu hyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, ond bydd angen ystyried yr amserlen sy'n cael ei nodi yn yr adran ar Recriwtio a Hyfforddi yn yr adroddiad hwn hefyd.

### Adnoddau

25. Gellid defnyddio'r arian sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer hyfforddiant yn rhaglen 3ydd rownd y Gronfa Cyfleoedd Newydd i roi punt am bob punt a geir o'r Brif Gronfa. Byddai arian y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gael hefyd ar gyfer ardaloedd sydd y tu allan i Amcan 1.

## Cyfalaf

### Y Broblem

26. Mae prinder adeiladau addas ar gyfer gofal plant yn rhwystr sylweddol i'r gwaith o ddatblygu gofal plant.

**Cynnig**

27. Dylid gwneud archwiliad o’r adeiladau sydd ar gael ar gyfer gofal plant er mwyn nodi maint y broblem. Dylid ystyried y cynigion sydd yn yr adran o’r adroddiad ar Ddatblygu Gofal Plant i gwrdd ag Anghenion Plant, Teuluoedd a Chymunedau mewn Ardaloedd lle ceir Amddifadedd Cymdeithasol hefyd, gan y bydd y rhain hefyd yn dylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf. Dylai’r Gronfa Cyfleoedd Newydd a’r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu, felly, trwy ymgynghori gydag eraill, beth yw’r cyfraniad mwyaf priodol y gallai’r Gronfa ei wneud tuag at fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer darpariaeth gofal plant yng Nghymru.

**Amserlen**

28. Cyn gynted ag y bo modd.

**Adnoddau**

29. Bydd elfen ariannu cyfalaf rhaglen 3ydd rownd y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gael i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn darpariaeth gofal plant. Nid yw’n debygol y bydd arian cyfatebol ar gael o ffynonellau yn yr UE ar gyfer y ddarpariaeth hon.

**Argymhellion**

30. Argymhellir bod;

- Ceisiadau rhanbarthol yn cael eu gwneud dan Amcan 1 a 3, er mwyn sefydlu tîm o Hwyluswyr Ariannu i helpu Partneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a darparwyr gofal plant i gyflwyno ceisiadau ar gyfer arian o’r UE ac arian arall, gan ddefnyddio arian cyfatebol gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd a’r Cynulliad Cenedlaethol. Dylai’r Cynulliad weithio gydag aelodau eraill y Tasglu er mwyn darganfod a chytuno ar sefydliad arweiniol a fyddai’n addas ar gyfer cydgysylltu’r ceisiadau hyn.

- Ceisiadau lleol am arian Ewropeaidd yn cael eu cydgysylltu er mwyn darparu gofal plant cynaliadwy gan ddefnyddio arian y Gronfa Cyfleoedd Newydd a’r Cynulliad Cenedlaethol fel arian cyfatebol.

- Dylid cyflwyno cais am brif gronfa ar gyfer hyfforddi i’r Bartneriaeth Adnoddau Dynol dan Amcan 1.

- Y Cynulliad yn edrych sut y gellid gwneud arolwg o’r adeiladau sy’n cael eu defnyddio ar gyfer gofal plant, er mwyn nodi’r ddarpariaeth bresennol a’r angen.

- Y Gronfa Cyfleoedd Newydd a’r Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl ymgynghori gydag eraill, yn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer elfen ariannu cyfalaf rhaglen gofal plant 3ydd rownd y Gronfa.

- Gwybodaeth a chyfarwyddiadau ynghylch cael gafael ar arian Ewropeaidd yn cael eu darparu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ar gyfer prosiectau gofal plant, a Phartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn rhannu'r ymarfer gorau o safbwynt arian Ewropeaidd a Chredyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio. Dylai Unedau Arian Ewropeaidd Awdurdodau Lleol gynnwys Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant mewn ceisiadau am arian Ewropeaidd.

# Atodiad 1

## Tudalen Gynnwys y Canllawiau ar gyfer Partneriaethau Lleol Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru


**Adran 1 : Cyflwyniad**

Polisi'r Llywodraeth 1

Adolygiad o Reoleiddio Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Dydd 1

Diben y Canllawiau hyn 2

Sail Statudol Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 2

Y Berthynas rhwng Cynlluniau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant 2

**Adran 2 : Gweithio mewn Partneriaeth** 3

Yr angen am ymagwedd bartneriaeth: ffyrdd newydd o weithio 3

Perthynas partneriaethau â grwpiau a chynlluniau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau plant 3

Datblygu aelodaeth y bartneriaeth: tuag at ymagwedd integredig 4

Dulliau gweithredu 5

Nodau'r bartneriaeth wrth lunio cynlluniau 6

Ymgynghori ar gynlluniau 7

Y fframwaith ar gyfer llunio a chytuno ar gynlluniau datblygu'r blynyddoedd cynnar a chynlluniau gofal plant 8

**Adran 3 : Canllawiau ar gyfer Cynllunio a Darparu Addysg y Blynyddoedd Cynnar ym 1999-2000** 10

Oedran ysgol gorfodol 10

Dyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth 10

Egwyddorion 11

Targedau 11

| | |
|---|---|
| Sicrhau darpariaeth | 11 |
| Sicrwydd ansawdd | 12 |
| Anghenion Addysgol Arbennig | 12 |
| Llunio’r cynllun | 12 |
| Cynnwys a Diwyg y cynllun ym 1999-2000 | 12 |
| Darpariaeth yn y sector gwirfoddol a phreifat | 14 |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 15 |
| Cymorth i’r bartneriaeth wrth lunio’r cynllun | 15 |
| Perthynas y cynllun â chynlluniau strategol addysg | 15 |
| Ymgynghori ynghylch y cynllun | 16 |
| Cyllido addysg y blynyddoedd cynnar ym 1999-2000 | 16 |
| Ffioedd atodol | 16 |
| Grant penodol | 17 |
| Darparwyr | 17 |
| Rhwydweithiau gwarchod plant a gymeradwywyd | 17 |
| Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) | 18 |
| Cyfleoedd Cyfartal | 19 |
| Sicrwydd Ansawdd | 19 |
| SPAEM a Sicrwydd Ansawdd | 19 |
| Priodoldeb sefydliadau | 20 |
| Ymglymiad Athrawon Cymwysedig | 20 |
| Hyfforddiant | 21 |
| Monitro, gwerthuso ac anghenion data | 22 |
| Gwybodaeth i rieni | 22 |
| Cymeradwyo Cynlluniau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar | 22 |

Gwybodaeth bellach 23

**Adran 4 : Canllawiau ar Gynllunio ar gyfer Gofal Plant ym 1999-2000** 24

Swyddogaeth y Bartneriaeth wrth Gynllunio ar gyfer Gofal Plant 24

Nodau ac Amcanion ar gyfer Partneriaethau wrth Gynllunio ar gyfer Gofal Plant 24

**Adran 4A : Archwiliad Gofal Plant 1999** **27**

***Cyflwyniad*** 27

Yr Archwiliad: Gwybodaeth a ble mae dod o hyd iddi 28

Gwybodaeth ddemograffig a chymdeithasol-economaidd 28

Gwasanaethau Presennol Gofal Plant 32

Y galw presennol heb ei fodloni ar gyfer lleoedd gofal plant 34

Darparu gwybodaeth am ofal plant 36

**Adran 4B : Y Cynllun Gofal Plant ar gyfer 1999-2003** **37**

Proses ac Ymagwedd 37

Ymgynghori ar y Cynllun Gofal Plant 37

Y Cynllun Gofal Plant Cyntaf – 1999-2003 37

Partneriaeth ar gyfer Amrywiaeth 38

Archwiliad Gofal Plant 1999 39

Ffurf y Cynllun Gofal Plant 39

Y Cynllun 40

Rhan Un : Cefndir 40

Rhan Dau : Paratoi ar gyfer lleoedd gofal plant newydd a'u cyflwyno 41

Rhan Tri : Targedau 41

Atodiadau i'r Cynllun 44

Atodiad 1 – Cyfleoedd Cyfartal a Mynediad i Ofal Plant 44

Atodiad 2 - Strategaethau ar gyfer Recriwtio, Hyfforddi ac Ansawdd y Ddarpariaeth 45

- Ansawdd y Ddarpariaeth 45
- Hyfforddi a recriwtio 46

Atodiad 3 – Gwasanaeth Gwybodaeth Lleol i Blant 48

Atodiad 4 – Ariannu 50

**Adran 5 : Cymeradwyo, Gweithredu, Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Gofal Plant 51**

Cymeradwyo'r Cynllun 51

Gweithredu 52

Monitro a gwerthuso'r Cynllun 53

**Atodiad A Ystadegau Craidd 55**

**Atodiad B Diffiniadau o Ofal Plant ac Addysg y Tu Allan i'r Ysgol 61**

**Atodiad C Asesu Galw'r Rhieni heb ei Fodloni ar gyfer Gofal Plant 63**

**Atodiad D Y Gronfa Cyfleoedd Newydd 65**

# Atodiad 2

## Safonau Gwybodaeth Sylfaenol

Mae'r canlynol yn diffinio'r gwasanaeth sylfaenol y gall pob defnyddiwr ei ddisgwyl gan unrhyw Wasanaeth Gwybodaeth Plant sy'n cwrdd â'r safonau sydd yn y Cod Ymarfer hwn.  Gall y dull darparu amrywio gan ddibynnu ar resymeg y gwasanaeth unigol.

Gall defnyddwyr ddisgwyl:

- Gwybod sut i gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant a sut y gall y Gwasanaeth eu helpu e.e. trwy ddatganiad gwasanaeth.

- Sicrwydd y bydd eu hymholiad ac unrhyw amgylchiad personol yn cael ei ystyried yn gyfrinachol.

- Gwasanaeth diduedd a gwrthrychol sydd o fewn cyrraedd rhwydd.

- Cymorth a chyfarwyddyd i'w helpu i nodi beth sydd ei angen arnynt.

- Eglurhad ynghylch y gwahanol fathau o ddarpariaethau gofal plant sydd ar gael.

- Cyfarwyddyd ynghylch sut i ddewis y ddarpariaeth sy'n gweddu orau i'w hanghenion hwy ac i anghenion eu plant.

- Gwybodaeth fanwl, gywir a chyfredol am bob darpariaeth gofal plant gofrestredig yn eu hardal sy'n cwrdd â'u hanghenion.

- Cyfle i gael mwy o gymorth neu gyfarwyddyd ynghylch materion ehangach ym maes gofal plant e.e. ffynonellau cymorth ariannol.

- Cyfle i wneud sylwadau am y gwasanaeth y maent wedi ei gael a sut y gellid ei wella.

Ffynhonnell: Raising the Standard; The Code of Practice for Children's Information Services.
Choices in Childcare; The National Network of Children's Information Services.

# Atodiad 3

**Darpariaeth Integredig ar gyfer Gofal Plant/Addysg Gynnar/Cyfoethogi – Patrwm Posib**

<table>
<tr><td colspan="3">Darpariaeth gofal dydd i blant 0-3 oed (gyda’r rhiant yn gyfrifol am y gost) ar gael am ddiwrnod llawn neu hanner diwrnod (8.00a.m. – 6.00p.m.)<br>Rhwydwaith o warchodwyr plant yn cynnig gofal ac addysg yn y cylch</td></tr>
<tr><td>Clwb brecwast<br>8.00 – 9.00 a.m.<br>Oed 3+ - 14<br>(rhaniad oedran yn y ddarpariaeth)</td><td>Darpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar<br>(AALI, PPA (Cymru), MYM, Cymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant, Meithrinfa ddydd)<br>9.00 a.m. –12.00 NEU 1.00 – 3.30 p.m. plant 3 i 4 oed<br>Gofal cyn ac ar ôl ysgol i ychwanegu at ddiwrnod llawn ar gyfer rhieni sy’n gweithio neu’n derbyn hyfforddiant, neu sy’n dymuno i’w plant fynychu’n llawn-amser (os yn briodol) 9 a.m. – 12.00 NEU 1.00 – 3.30 p.m.<br>Plant 3 i 4 oed<br>Plant 4 oed mewn addysg lawn-amser</td><td>3.30 – 6.00<br>Clwb ar ôl ysgol p.m.<br><br>Oed 3+ - 14<br>(rhaniad oedran yn y ddarpariaeth)</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="3">Mae’r “pecynnau” uchod yn darparu gofal llawn i blant 0-11/14 oed sydd â’u rhieni’n gweithio</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Cyrsiau cefnogi rhieni, hyfforddiant – NVQ, gofal plant, TG, galwedigaethol, datblygiad personol ac yn y blaen i gwrdd â’r anghenion a nodwyd sydd gan rieni lleol – yn cael eu cefnogi gan yr addysg gynnar a’r gofal plant uchod (9.00 a.m. – 3.30 p.m.)</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Rhaglen Mamau Ifanc – addysg barhaus, iechyd a chefnogaeth gofal plant i famau oed ysgol sy’n dymuno defnyddio’r gwasanaeth</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Sesiynau “galw heibio” ym maes iechyd ar gael, ac yn canolbwyntio ar bynciau amrywiol – cyn geni, iechyd rhywiol, bwydo â’r fron, diet a maethiad ac yn y blaen – unwaith eto’n cael eu cefnogi gan yr addysg gynnar a’r gofal plant uchod (9.00 a.m. – 3.30 p.m.)</td></tr>
<tr><td></td><td>Mam a’i Phlentyn – 2 ddiwrnod yr wythnos 9.00 a.m. – 12.00</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Grwp cefnogi rhieni – cyfraniad gan Iechyd, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, a’r sector Gwirfoddol – yn ôl dymuniad a chais y rhieni</td><td></td></tr>
</table>

Andy Senior – Patrwm yn Dangos Canolfannau Integredig ar gyfer y Tasglu Gofal Plant

# **Canolfan Integredig ar gyfer Gofal Plant/Addysg Gynnar/Cyfoethogi – Patrwm Posib (parhad)**


Darpariaeth galw heibio ar gyfer pobl ifanc, gydag ystafell TG, cyngor ynghylch iechyd rhywiol, cymorth ym maes tai a budd-daliadau
- Y Fargen Newydd, (Ymestyn Hawliau), Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc – 1.00 p.m. – 9.00 p.m. (11-25+ oed)


Amrediad o weithgareddau priodol yn ymwneud â chwaraeon, hamdden a chyfoethogi er mwyn cwrdd â'r anghenion a nodwyd ar gyfer pobl ifanc – o bosib i gynnwys chwarae antur gyda staff (y Gronfa Cyfleoedd Newydd), wal ddringo ac yn y blaen.

Gweithgareddau hyfforddi a chefnogi i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan, "cyfalaf cymdeithasol", gwirfoddoli, datblygu potensial a dinasyddiaeth

Y Ganolfan hefyd ar gyfer staff Cychwyn Cadarn, Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Plant a Phobl Ifanc (Ymestyn Hawliau), swyddog cyllido Ewropeaidd y Gronfa Cyfleoedd Newydd, staff coleg sy'n gweithio y tu allan i'r coleg, ac yn y blaen, ynghyd ag amrediad o fudiadau'r Sector Gwirfoddol, y Gwasanaethau Gwybodaeth Gofal Plant lleol, Gweithwyr Iechyd Maes, yr Asiantaeth Fudd-daliadau, Y Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol, cyngor ynghylch Anghenion Addysgol Arbennig/Anabledd, ac yn y blaen, "SIOP BOB DIM" – (cysylltiadau â Chanolfannau Byw'n Iach.)
Cludiant yn gysylltiedig â'r ganolfan fel bod modd cludo rhieni sy'n byw'n bellach na phellter "gwthio coets" i'r ganolfan, a chludo plant, pobl ifanc a rhieni i ddigwyddiadau a gweithgareddau.

## Diagram o Batrwm "Craidd a Chlwstwr"




**Gwasanaethau cymunedol yn gysylltiedig â'r Ganolfan**

- Gwarchodwyr plant yn mynychu'r ganolfan ar gyfer hyfforddiant, rhwydweithio, cyfarfodydd cefnogi, gweithgareddau grwp ac yn y blaen, ond yn cynnig gwasanaethau i deuluoedd sydd eisiau gofal yn y cartref, darpariaeth leol, cefnogaeth arbenigol gydag Anghenion Addysgol Arbennig ac yn y blaen.
- Cyfeiriadau at Ganolfannau Byw'n Iach – staff teithiol o'r Ganolfan hefyd yn cynnig gofal plant yn y Ganolfan Byw'n Iach er mwyn cefnogi defnyddwyr
- Sesiynau galw heibio ar gyfer pobl ifanc yn gallu cynnig "gwasanaethau sensitif" yn rhywle ar wahân i'r Ganolfan – gan sicrhau cyfrinachedd i'r client
- Gwasanaethau hamdden a chwarae antur – plant iau'n cael eu cludo o'r Ganolfan i ddefnyddio darpariaeth, pobl ifanc yn gallu mynd ar eu pennau eu hunain yn well

Andy Senior – Patrwm yn Dangos Canolfannau Integredig ar gyfer y Tasglu Gofal Plant

# Atodiad 4

**Canolfan Integredig ar gyfer Gofal Plant/Addysg Gynnar/Cyfoethogi – Patrwm Posib ar gyfer Ffynonellau Ariannol**

| Amrediad oedran plant | Ffynonellau ariannu posib - presennol | Ffynonellau ariannu posib - dyfodol |
|---|---|---|
| 0 – 3 – gofal dydd | Y Gronfa Cyfleoedd Newydd – cyfalaf/refeniw (gofal cyn ac ar ôl ysgol) 1-3 oed gan ddibynnu ar yr ardal<br>Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant – cyfalaf (lefel ariannu isel)<br>Canolfannau integredig (ehangu Addysg Gynnar y Cynulliad) - cyfalaf<br>Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio – refeniw<br>Loteri – cyfalaf/refeniw – os yn bodloni'r meini prawf (statws darparwr, maes allgáu)<br>Cychwyn Cadarn – os yn bodloni'r meini prawf (statws teulu, ardal sy'n cael ei thargedu)<br>Ewrop - cyfalaf/refeniw – os yn cefnogi hyfforddiant/cyflogaeth<br>Ffïoedd rhieni | Cronfa i Gynorthwyo Plant a Phobl Ifanc<br>Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio – refeniw<br>Loteri – cyfalaf/refeniw – os yn bodloni'r meini prawf (statws darparwr, maes allgáu)<br>Ewrop - cyfalaf/refeniw – os yn cefnogi hyfforddiant/cyflogaeth<br>Rhoi Cymunedau'n Gyntaf?<br>Awdurdod Lleol – Addysg, Gwas. Cym., Dat. Ec. |
| 3 – 14 gofal y tu allan i oriau ysgol | Y Gronfa Cyfleoedd Newydd – cyfalaf/refeniw 1-3 oed gan ddibynnu ar yr ardal<br>Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant – refeniw (cynaladwyedd)<br>Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio – refeniw<br>Loteri – cyfalaf/refeniw – os yn bodloni'r meini prawf (statws darparwr, maes allgáu)<br>Ffioedd rhieni | Cronfa i Gynorthwyo Plant a Phobl Ifanc<br>Awdurdod Lleol – Addysg, Gwas. Cym., Dat. Ec.<br>Y Gronfa Cyfleoedd Newydd – cyfalaf/refeniw 1-3 oed gan ddibynnu ar yr ardal<br>Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio – refeniw<br>Loteri – cyfalaf/refeniw – os yn bodloni'r meini prawf (statws darparwr, maes allgáu)<br>Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? |

**Canolfan Integredig ar gyfer Gofal Plant/Addysg Gynnar/Cyfoethogi – Patrwm Posib ar gyfer Ffynonellau Ariannol**

| | | |
|---|---|---|
| 8 a throsodd – cyfoethogi, chwarae, chwaraeon, gwybodaeth | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc<br>Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant – refeniw (cynaladwyedd)<br>Loteri – cyfalaf/refeniw – os yn bodloni'r meini prawf (statws darparwr, maes allgáu)<br>(SportLot?) | Cronfa i Gynorthwyo Plant a Phobl Ifanc<br>Y Gronfa Cyfleoedd Newydd – cyfalaf/refeniw 1-3 oed gan ddibynnu ar yr ardal – chwarae antur gyda staff<br>Ymestyn Hawliau |
| Hyfforddiant a Datblygu Potensial | Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc<br>Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant – refeniw (cynaladwyedd)<br>Loteri – cyfalaf/refeniw – os yn bodloni'r meini prawf (statws darparwr, maes allgáu)<br>(SportLot?)<br>Ewrop (Cronfa Gymdeithasol Ewrop)<br>ELWa<br>Colegau – safleoedd cysylltiol | Cronfa i Gynorthwyo Plant a Phobl Ifanc<br>Awdurdod Lleol – Addysg Gymunedol<br>Y Gronfa Cyfleoedd Newydd<br>Ewrop (Cronfa Gymdeithasol Ewrop)<br>ELWa<br>Colegau – safleoedd cysylltiol |
| Iechyd | Ymddiriedolaethau'r GIG<br>Grwpiau Iechyd Lleol<br>Y Gronfa Cyfleoedd Newydd – Canolfannau Byw'n Iach | (Rhywbeth yn lle'r Ymddiriedolaethau?)<br>Grwpiau Iechyd Lleol<br>Y Gronfa Cyfleoedd Newydd – Canolfannau Byw'n Iach |

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| **PDBCGP** | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **WFTC** | Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio |
| **WEFO** | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| **GGP** | Gwasanaeth Gwybodaeth Plant |
| **GGPC** | Gwasanaethau Gwybodaeth Plant Cymru |
| **WDA** | Awdurdod Datblygu Cymru |
| **ELWa** | Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **NTO** | Corff Hyfforddi Cenedlaethol |